



Cyngor Castell-nedd Port Talbot  
Neath Port Talbot Council

Gwasanaeth Addysg, Hamdden a Dysgu  
Gydol Oes  
Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion

## **ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD**

**Cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3-  
11 yn lle ysgolion cynradd Alltwen,  
Godre'rgraig a Llangiwg**



# **Cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 yn lle ysgolion cynradd Alltwn, Godre'rgraig a Llangiwig - dadansoddiad a sylwadau**

## **Cyflwyniad**

Ar 21 Hydref 2020, fe wnaeth Cabinet y Cyngor benderfynu ymgynghori ar gynnig i sefydlu ysgol 3-11 cyfrwng Saesneg yn lle ysgolion cynradd Alltwn, Godre'rgraig a Llangiwig, ynghyd â chanolfan cymorth dysgu ar gyfer hyd at 16 disgybl â datganiadau yn ymwneud ag Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig. Roedd cyfnod yr ymgynghoriad o 3 Tachwedd 2020 i 19 Ionawr 2021. Cynhwysir rhestr o ymgynghorieion yn Atodiad A. Mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriad hwn yn crynhoi materion a grybwyllwyd gan yr ymgynghorieion yn ystod y broses ymgynghori. Mae'n ymateb i'r rhain trwy gadarnhau a chynnig sylwadau, â rhesymau ategol.

Mae llawer o'r ymatebion yn ymwneud â materion tebyg, ac mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau a gafwyd yn ymwneud â maint (nifer disgyblion) yr ysgol newydd arfaethedig, rheoli traffig yn y safle arfaethedig, cludiant, a'r effaith ar y gymuned.

Mae safbwyntiau Estyn, yr arolygiaeth ysgolion, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad hwn, ynghyd â nodiadau o gyfarfodydd gyda disgyblion.

Mae angen darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori, 'Cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 yn lle ysgolion cynradd Alltwn, Godre'rgraig a Llangiwig'.

## **Cyd-destun**

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â phartion â buddiant ynghylch y cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 â chanolfan cymorth dysgu arbenigol mewn adeiladau newydd, ar gyfer disgyblion o ddalgylchoedd Ysgol Gynradd Alltwn, Ysgol Gynradd Godre'rgraig ac Ysgol Gynradd Llangiwig, y bydd pob un ohonynt yn cau ar ôl hynny ar 31 Awst 2024.

## **Cefndir y Cynnig**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am sicrhau addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Cael yr ysgolion iawn yn y lle iawn a

sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dysgwr yn yr 21ain ganrif yw'r her sy'n wynebu'r Cyngor. Bydd cyflawni hyn yn cynnwys adolygu nifer a math yr ysgolion sydd gan y Cyngor yn ei ardal ac asesu a yw'r defnydd gorau yn cael ei wneud o adnoddau a chyfleusterau ai peidio. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth addas ar gyfer y disgyblion hynny ag anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gweithredu'r Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion (SSIP) yn golygu adolygu'r ddarpariaeth bresennol a phennu'r nifer a'r math o ysgolion sydd eu hangen i ddarparu addysg yn effeithiol ac yn effeithlon ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'n debyg y bydd yn arwain at newid sylweddol fydd yn golygu agor ysgolion newydd, cau ysgolion presennol, uno ysgolion, ffedereiddio ysgolion a hyrwyddo mentrau newydd sy'n cefnogi cydweithio rhwng ysgolion. Bydd hefyd yn cynnwys ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad i'r cymorth, y sgiliau a'r arbenigedd penodol sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol ac yn elwa arnynt.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu adolygu ei ddarpariaeth ar sail:

- safonau addysgol
- yr angen am leoedd a hygyrchedd ysgolion
- ansawdd ac addasrwydd adeiladau ysgolion
- rheolaeth ariannol effeithiol

Mae'r cyngor yn bwriadu adeiladu ysgol gynradd newydd ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer Cwm Tawe i ddisodli ysgolion cynradd Alltwn, Godre'rgraig a Llangiwig, y bydd pob un ohonynt yn cau ar Awst 31ain 2024.

Cynigir adeiladu'r ysgol newydd ar dir ym Mharc Ynysderw ym Mhontardawe ac y bydd yn rhan o gampws dysgu, iechyd a lles cymunedol sy'n cynnwys Ysgol Gymunedol Cwmtawe a Chanolfan Hamdden Pontardawe. Caiff y campws ei wella ymhellach drwy ychwanegu pwll nofio newydd ar y safle i ategu'r ddarpariaeth bresennol a gwella'r cynnig iechyd a lles i ddisgyblion a'r gymuned ehangach.

Bydd yr ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg newydd ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed yn cynnal 630 o ddisgyblion llawn amser a 140 o ddisgyblion oedran meithrin rhan-amser (70 am/70 pm) mewn cyfleuster newydd ar gyfer yr 21ain ganrif a fydd yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf.

Bydd yr ysgol newydd yn gwasanaethu dalgylchoedd cyfunol ysgolion cynradd Alltwn, Godre'rgraig a Llangiwig a bydd ganddi ddigon o leoedd i ddisgyblion o'r ardal. Bydd disgyblion o'r tair ysgol bresennol yn trosglwyddo'n awtomatig i'r ysgol newydd yn amodol ar ddewis y rhieni. Caiff ei rheoli gan un pennaeth ac un corff llywodraethu a bydd ganddi un dyraniad cyllideb ac un grŵp o staff.

Yn ogystal, bydd yr ysgol newydd yn darparu canolfan cymorth dysgu ar gyfer hyd at 16 o ddisgyblion â datganiadau ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig (ASA). Bydd cyfle hefyd iddi ddod yn ganolfan gymunedol ar gyfer yr ardal, gan adeiladu

ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan ganolfannau cymorth dysgu sefydledig ysgolion cynradd eraill.

Caiff yr adeilad newydd ei ariannu ar y cyd gan arian grant cyfalaf Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru a gallu benthyca darbodus y cyngor.

Bydd adeilad newydd yr ysgol gyfunol, y ddarpariaeth ASA arbenigol a'r pwll yn rhan o gampws dysgu, iechyd a lles cymunedol ar safle Parc Ynysderw, gan ategu darpariaeth bresennol Ysgol Gymunedol Cwmtawe a Chanolfan Hamdden Pontardawe. Trwy leoli'r cyfleusterau adeiladu newydd yn agos at Ysgol Gymunedol Cwmtawe, bydd y datblygiad yn galluogi disgyblion a staff o'r ddwy ysgol i elwa o fwy o weithio mewn partneriaeth, a fydd yn haws oherwydd eu bod yn agos at ei gilydd.

Mae stoc adeiladau'r ysgol yn heneiddio ac mae'r Cyngor yn wynebu costau cynnal a chadw ac atgyweirio cynyddol. Wrth i arian a chyfle ddod ar gael bydd y Cyngor yn ceisio disodli ysgolion presennol gydag adeiladau newydd a chyfleusterau addysgu a dysgu o'r radd flaenaf. Bydd y cynnig hwn yn dileu tua £2m mewn gwaith cynnal a chadw ôl-groniad ar draws y tair ysgol, a bydd hefyd yn dileu trefniant safle rhanedig yn Ysgol Gynradd Llangiwig.

Ar hyn o bryd, mae'r tair ysgol yn sefydliadau ar wahân, ar safleoedd gryn bellter oddi wrth ei gilydd. Gall creu un ysgol gynradd fwy arwain at fanteision cynyddol i staff a phlant, yn ogystal â galluogi defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

## ***Y broses ymgynghori***

Ar 21 Hydref 2020, fe wnaeth Cabinet y Cyngor benderfynu ymgynghori ar gynnig i sefydlu ysgol 3-11 cyfrwng Saesneg yn lle ysgolion cynradd Alltwen, Godre'rgraig a Llangiwig, ynghyd â chanolfan cymorth dysgu ar gyfer hyd at 16 disgybl â datganiadau yn ymwneud ag Anhwylderau'r Sbectrum Awtistig. Roedd cyfnod yr ymgynghoriad o 3 Tachwedd 2020 i 19 Ionawr 2021. Cynhwysir rhestr o ymgynghorieion yn Atodiad A. Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at ymgynghorieion trwy e-bost, ac fe wnaeth ysgolion reoli'r broses o'i dosbarthu ymhlith cymunedau eu hysgol. Roedd hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. Roedd copïau papur ar gael ar gais.

Roedd fersiwn ar gyfer disgyblion o'r ddogfen ymgynghori hefyd ar gael i'r ysgolion i'w dosbarthu fel y bo'n briodol.

Anfonwyd ymatebion i'r ymgynghoriad trwy gyfrwng e-bost, trwy'r post a thrwy borth ymgynghoriadau ar-lein y Cyngor. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys manylion ynghylch sut i ymateb ac roedd dolenni at y porth ymgynghori ar-lein wedi'u cynnwys ar y wefan ac ar sianelau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, fe wnaeth



Llangiwig                    3 Rhagfyr 2020  
Godre'rgraig                4 Rhagfyr 2020

Rhannodd disgyblion yn y tair ysgol eu safbwyntiau am eu hysgolion presennol a mynegi eu pryderon ynghylch symud i ysgol newydd. Mae nodiadau ynghylch y sylwadau a wnaed a'r ymatebion a roddwyd gan swyddogion yn y cyfarfod ar gael yn Atodiad B.

Dylid cydnabod fod nodiadau'r cyfarfodydd yn adlewyrchu dealltwriaeth y swyddogion o'r safbwyntiau a fynegwyd, ac fel y cyfryw, efallai nad ydynt yn ddehongliad llawn o'r sylwadau unigol a wnaed a'r ymholiadau a gafwyd. Mewn perthynas â hyn ac i gynorthwyo i gynnal y broses ymgynghori, atgoffwyd disgyblion ym mhob cyfarfod y gallent anfon sylwadau ysgrifenedig os oeddent yn dymuno.

## ***Ymatebion i'r Ymgynghoriad***

Ymatebion ar-lein            161, yn cynnwys 14 o blaid y cynnig  
E-byst                            26, 1 o blaid  
Ffurflenni ar bapur/llythyr 47, 6 o blaid  
Deiseb ar-lein                413 llofnod, â 50 ohonynt yn cynnwys sylwadau

Cafwyd cyfanswm o 234 ymateb (heb gyfrif y ddeiseb).

Er bod manylion nifer yr ymatebion i'w gweld isod, ni ddylid rhoi unrhyw bwys penodol i'r nifer a dderbyniwyd oherwydd y safbwyntiau a'r materion a fynegwyd sydd wedi hysbysu'r adroddiad ar yr ymgynghoriad hwn.

*Tabl 1*

Disgyblion	0	Perthnasau disgyblion	4
Rheini/Gofalwyr	118	Aelodau'r Gymuned	61
Staff	8	Eraill	24
Llywodraethwyr	2	Amhenodol	6

Cafwyd yr ymatebion dilynol hefyd:

*Tabl 2*

3 Chorff Llywodraethu (Ysgol Gynradd Alltwen, YGG Trebannws ac YGG Pontardawe)	1 gan Undeb Llafur
--	--------------------

Cyngor Tref Pontardawe	Y Cyngorydd Chris Jones Y Cyngorydd Tref Andrew Nicholson
2 Gyngor Cymuned (Cilybebyll ac Ystalyfera)	Jeremy Miles Aelod Senedd Castell-nedd Dr David Lloyd Aelod Senedd dros Dde Orllewin Cymru
ESTYN	

Cyn cychwyn cyfnod yr ymgynghoriad ffurfiol, cafwyd ymatebion gan Gyngorwyr lleol a Tegwch. Mae atebion uniongyrchol wedi cael eu darparu ac mae'r pwyntiau a godwyd hefyd wedi cael sylw yn yr adroddiad hwn.

Bydd copiâu o'r holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i'r Aelodau cyn cyfarfod Cabinet y Cyngor, ble caiff y cynnig a'r adroddiad ar yr ymgynghoriad eu hystyried.

### - **Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd**

Er mwyn adlewyrchu'r teimladau a fynegwyd gan yr atebwyr, mae detholiadau o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys isod. Mae'r rhain yn sampl o'r safbwyntiau a fynegwyd. Mae pryderon ac ymholiadau unigol wedi cael sylw naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn ymateb y swyddog i bob un o'r prif themâu sy'n deillio o'r ymgynghoriad.

- *Rwy'n cefnogi'r cynnig oherwydd bydd yn fuddiol iawn i'r plant.*
- *Mae ysgol fodern newydd â mwy o gyfleoedd er lles pennaf pob plentyn.*
- *Dull mwy cydweithredol.*
- *Ni ddyluniwyd adeiladau'r hen ysgol ar gyfer plant sydd ag anableddau. Yn sgil dyfodiad y cwricwlwm newydd, mae addysg yn newid. Mae lleoedd amlswyddogaethol â manau agored yn angenrheidiol. Rwy'n deall y gallai materion yn ymwneud â chludiant a thraffig fod yn bryder, ond hyderaf yr ymdrinnir â'r rhain yn ystod y cam cynllunio os bydd yr ymgynghoriad hwn yn llwyddiannus.*
- *Rwy'n hollol gefnogol i'r egwyddor o ddarparu Ysgol Cyfrwng Saesneg ar gyfer yr 21ain Ganrif yn cynnwys Uned Arbenigol ar gyfer plant sydd ag Anghenion Arbennig ac wedi'i chynllunio'n benodol i helpu plant ac athrawon ac ati i gyflawni'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd.*
- *Credaf ei bod hi'n syniad gwych y gall fy mhentyn gael cyfle i ddysgu mewn ysgol fodern o'r radd flaenaf. Ydy, mae'r ysgol y mae fy merch yn ei*

- mynychu ar hyn o bryd ym mhen draw'r ffordd, ond os yw'n golygu deffro deng munud yn gynt er lles dyfodol fy mhlentyn, dewch i ni fynd amdani.*
- *Mae safon yr addysg ym mhob ysgol eisoes yn dda neu'n rhagorol, a bydd eu cyfuno yn sefydliad mwy yn annhebygol o wella hyn. Yn wir, ceir rhywfaint o dystiolaeth fod ysgolion mwy yn lleihau effeithiolrwydd addysg.*
  - *Caiff addysg ei wanhau ac ni chaiff plant y cyfleoedd dysgu un ac un y maent yn eu cael ar hyn o bryd.*
  - *Nid yw'r cynnig hwn er lles plant na'u rhieni. Rydym yn credu y bydd yn effeithio'n niweidiol ar eu bywydau ifanc a'u llesiant yn gyffredinol.*
  - *Gall ymddygiad anffafriol ymhlith plant iau waethygu, ac efallai bydd angen mwy o amser i ganfod hynny mewn amgylchedd ysgol sy'n fwy.*
  - *Dywed y ddogfen y gwnaiff cyfleusterau ar gyfer yr 21ain ganrif ddylanwadu ar hunan-barch a llesiant disgyblion. Credaf y caiff hunan-barch/llesiant ei sefydlu gan yr oedolion sy'n gofalu am ein plant ac yn eu meithrin, nid gan gyfleusterau o'r radd flaenaf.*
  - *Byddai'n achosi newid a chyfyngder ychwanegol i blant sydd eisoes yn byw yn ystod pandemig byd-eang heb ei debyg.*
  - *Fel cyn-athro mewn ysgol uwchradd, rwy'n gwybod y gall mynd i ysgol fawr fod yn brofiad trawmatig a wnaiff orlethu plentyn 11 mlwydd oed. Faint yn waeth fyddai hynny i blentyn 3 oed?*
  - *Mae adborth ynghylch yr ysgolion mawr wedi bod yn negyddol. Bydd uno'r ysgolion cynradd unigol yn 1 ysgol yn effeithio'n niweidiol ar ein cymunedau a'n plant.*
  - *Mae ysgolion lleol mewn cymunedau yn rhoi cyfle i blant gymdeithasu a chwarae gyda phobl y maent yn eu hadnabod yn eu cymdogaeth a'u hardal leol megis cymdogion a ffrindiau ac ati. Byddai'r ysgol fawr newydd yn anfantais i'r plant, oherwydd byddant yn rhan o gymysgedd mawr iawn o blant o ardal lawer mwy na'r ardal y maent yn cymdeithasu ynddi fel arfer.*
  - *Rwy'n credu hefyd fod plant sydd cyn hyned ag 16 yn well eu byd os nad ydynt yn cael eu cymysgu yn yr un lle â phlant bach.*
  - *Mae llawer o rieni yn hoffi cyfathrebu â rhieni eraill a staff yn y boreau. Bydd rhieni yn sefydlu perthnasoedd da â rhieni disgyblion sy'n rhan o ddozbarth eu plentyn. Bydd hyn bron iawn yn amhosibl â chymaint o ddisgyblion yn mynd i'r ysgol arfaethedig.*
  - *Dewisais ysgol fechan fel y byddai pob athro yn adnabod pob plentyn ac y byddai pob athro yn adnabod pob rhiant. Nid wyf yn dymuno i fy mhlant fod yn rhif.*
  - *Mae adeiladau mawr a dosbarthiadau â mwy o staff yn ymddangos yn groes i ddull sy'n canolbwyntio ar anghenion plant.*
  - *Mae cwricwlwm newydd Cymru yn pwysleisio dysgu am ddylanwadau cymdeithasol a dysgu dan arweiniad disgyblion ar sail eu hardal leol. Y*



*nod yw cynorthwyo dysgwyr i ddod yn ddinasyddion Cymru sy'n wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, y gymdeithas a'r byd. Mae'r cwricwlwm yn nodi y dylai disgyblion gyfranogi mewn ymchwilio ac archwilio'r profiad dynol yn eu cymdogaethau eu hunain, darganfod eu treftadaeth a datblygu ymdeimlad o le a 'chynefin'. Bydd symud plant o ysgol yn eu cymuned yn arwain at leihad sylweddol yn y posibiladau i wneud hyn a bydd yn effeithio'n negyddol ar y gallu i gyflawni'r cwricwlwm newydd ac ymdeimlad o berthyn ym mhentrefi Godre'rgraig, Ystalyfera a Chilmaengwyn.*

- Ar ôl siarad â staff mewn ysgolion sydd eisoes wedi cael profiad o'r broses hon, rwy'n pryderu y gwnaiff staff presennol yr ysgolion symud ymlaen oherwydd ni fyddant yn hapus yn addysgu yn yr amgylchedd newydd hwn*
- Byddai cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu colli yn yr ardal.*
- Faint o blith y cyfanswm o'r staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd fydd yn cael eu cyflogi yn y safle newydd? Sut yr ymdrinnir â cholli niferoedd o staff?*
- Os bydd uned anhwylderau'r sbectrwm awtistig ar wahân yn cael ei sefydlu, dylai fod yn llawer mwy na'r hyn a gynigir ar hyn o bryd. Ar sail datganiadau presennol a rhagfynegol ynghylch anghenion addysgol, gallai Ysgol Gynradd Alltwen ei hun lenwi'r lleoedd arfaethedig; ceir diffyg paratoi at y dyfodol o ran y nifer gynyddol o ddisgyblion y nodir fod ganddynt anhwylderau'r sbectrwm awtistig.*
- Nid wyf i o blaid creu canolfan cymorth dysgu newydd - caiff plant eu stigmatiddio yn sgil hyn, ac mae'r dystiolaeth yn dangos fod cynnal y ddemograffeg sy'n ymwneud â dosbarth arferol yn llawer mwy llesol i ddatblygiad plant na gwahanu.*
- Er fy mod i o blaid darpariaeth ychwanegol i ddisgyblion sydd ag AAA, nid wyf i o blaid hyn os yw'n gwahaniaethu yn erbyn disgyblion difreintiedig sy'n byw yng ngogledd y cwm, nac os yw'n creu anhrefn traffig ac yn cynyddu'r risg o anafiadau pellach i blant ar adegau gollwng a chasglu.*
- Mae'r lleoliad sydd wedi'i ddewis i'r ysgol newydd yn amhriodol. Mae'r traffig ym Mharc Ynysderw eisoes yn ddifrifol.*
- Bydd sefydlu'r ysgol fawr newydd arfaethedig yn golygu y bydd 770 o ddisgyblion ychwanegol yn teithio i Barc Ynysderw, ar ben tua 1283 o ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Cwmtawe, ac sydd eisoes yn achosi hunllef yn ystod yr oriau brig. Ar ben hyn, ceir y pwll nofio newydd arfaethedig a fydd hefyd yn cael ei leoli ar y safle, a bydd hynny'n arwain at gynnydd pellach yng nghyfanswm y traffig sy'n teithio i Barc Ynysderw.*
- Mae llawer o bobl yn defnyddio'r ffordd fynediad i'r Ganolfan Hamdden. A gaiff hyn ei reoli i leihau cyflymder cerbydau, yn enwedig yn ystod oriau ysgol?*
- Beth fydd yn digwydd os na fydd llwybrau cerdded addas ar gael o bob ardal?*

- Fel rhiant plentyn yn Ysgol Cwmtawe, byddaf yn gweld damweiniau bron iawn yn digwydd rhwng disgyblion a cheir yn ddyddiol fwy neu lai.
- Bydd y cynnig hwn hefyd yn achosi problemau i'r rhieni a'r mam-guod a'r tad-cuod o ran gofal plant. Ar hyn o bryd, gallwn ni gerdded i'r ysgol i gasglu ein hwyres. Bydd yn amhosibl i ni wneud hyn yn lleoliad arfaethedig yr ysgol newydd.
- Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018)) hefyd yn datgan y dylai llwybrau cerdded tebygol gael eu hasesu cyn cyflwyno cynigion. Mae hefyd yn datgan na ddylai disgyblion orfod teithio mwy na 45 munud i'r ysgol. Faint fyddai'n ei gymryd i'r disgybl ieuengaf gerdd y 2 filltir?
- Credir fod llawer o ddisgyblion ysgolion Alltwen a Llangiwig yn byw o fewn pellter cerdded o Bontardawe. Felly, byddai'r cynnig newydd yn gwahaniaethu'n drwm yn erbyn cymunedau rhan uchaf y cwm.
- Byddai'n rhaid i blant deithio ar fws neu mewn car. Byddai hyn yn golygu goblygiadau iechyd i'r plant oherwydd byddent yn cael llai o ymarfer corff na phe baent yn cerdded i'r ysgol, ac mae'n ddrwg o ran llygredd ac i'r amgylchedd hefyd.
- Nid oes gan ddisgyblion meithrin hawl i gael cludiant i'r ysgol. Mewn ardal ddifreintiedig, y disgyblion oedran meithrin yn benodol yw'r rhai y mae arnynt angen y datblygiad cynnar o ran iaith a chymdeithasoli sy'n deillio o fynychu ysgol. Ond y disgyblion hyn yw'r rhai a fyddai'n annhebygol o gyrchu'r ysgol newydd arfaethedig ac mae'n debyg mai arnynt hwy y mae ei hangen fwyaf. Gallent golli hyd at 2 flynedd o addysg o ganlyniad i hynny.
- Nid yw cludiant o'r cartref i'r ysgol yn mynd â phlant yn ddigon buan ar gyfer y Clwb Brecwast, ac nid yw'n darparu cludiant adref ar ôl clybiau wedi'r ysgol, gan arwain at effaith negyddol ar eu datblygiad addysgol a chymdeithasol.
- Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) yn datgan y dylai darpariaeth amgen barhau i fod yn hygyrch i ddisgyblion yn yr ardal leol ac y dylid ystyried effaith y cynnig ar gyflawniad addysgol plant o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd.
- Ni fydd yr ysgol yn hygyrch i ddisgyblion o ran isaf dalgylch Ysgol Godre'rgraig sydd ddim yn gymwys i gael cludiant am ddim.
- Bydd plant ifanc yn rhannu teithiau gyda phlant hŷn felly byddant yn clywed sgysiau sydd tu hwnt i'w hoedran pan yn rhy ifanc o lawer. Dychmygaf y gall y daith beri trawma i lawer.
- Credaf hefyd y byddai presenoldeb disgyblion yn dioddef, er enghraifft, ar ddyddiau pan fyddai rhieni a phlant yn rhy flinedig i gerdded yno.
- Hyd yn oed os bydd bws ysgol, beth os byddant yn digwydd methu'r bws? Mae rhiant/tad-cu neu fam-gu/gofalwr sy'n ceisio cael 3 o blant yn barod i fynd i'r ysgol yn gwybod y gall hyn ddigwydd yn rhwydd. Beth fydd yn

*digwydd os caiff y plentyn ei daro'n wael yn yr ysgol? Sut all rhieni heb gludiant eu casglu?*

- Mae'r tair ysgol bresennol mewn lleoliadau delfrydol, ceir presenoldeb da, addysgu o ansawdd uchel ac adeiladau cadarn sydd wedi'u dylunio i leihau gwaith cynnal a chadw.*
- Mae'r ysgolion cynradd hyn hefyd yn rhan o hanes Pontardawe, maent yno ers sawl cenhedlaeth, a byddai'n drist yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol i'w colli.*
- Beth fyddai'n digwydd i adeilad presennol ysgol Godre'rgraig ac adeiladau'r 2 ysgol gynradd bresennol arall pe bai'r prosiect arfaethedig yn mynd rhagddo? Ofnir y byddant yn cael eu gadael i ddod yn adfeilion segur.*
- Mae cyfanswm cost atgyweirio Llangiwig yn £701,000.00 – hyd ag y gwn i, nid oes neb sy'n gysylltiedig â'r ysgol (y Pennaeth neu'r Corff Llywodraethu) wedi gweld yr amcan bris atgyweirio hwn.*
- Pe gwrthodid y cynlluniau presennol yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, a fyddai'r gwaith arfaethedig sydd heb ei wneud yn cael ei gyflawni yn achos y Pwll a'r Ysgolion Cynradd?*
- Nid oedd y symiau a nodwyd i sicrhau fod y tair ysgol bresennol yn cyflawni'r safon yn symiau mawr o arian o gymharu ag adeiladu ysgol newydd.*
- Yn fy marn i, byddai'n well gwario arian cyhoeddus ar wella'r ysgolion cynradd presennol sydd dan sylw yn y cynnig, a byddai'n well hefyd gwario arian cyhoeddus ar wella Pwll Nofio presennol Pontardawe, os oes angen gwelliant.*
- Dylid cynnal a chadw'r ysgol fel y mae a pharhau i wella cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn yr ardal leol, fel y gall llawer rhagor fwynhau'r ganolfan hamdden a'r pwll nofio newydd gwell oll o dan yr un to.*
- Dylid ymchwilio ymhellach i broblem tomen y gloddfa yng Ngodre'rgraig. Os gellir clirio'r domen, gellir datrys problem bresennol yr ysgol a gellir ailsefydlu'r ysgol.*
- Wedi cael unrhyw syniadau eraill ar gyfer adleoli yn ardal Godre'rgraig? h.y. safle hen domen Tirennny?*
- Awgrymwyd y byddai cynnal Ysgol Alltwen fel y mae ar hyn o bryd ond codi adeilad ychwanegol o fewn tir yr ysgol ar gyfer uned wedi'i dylunio'n benodol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig yn ddewis ffafriol.*
- Mae gan y tair ysgol bresennol fannau sylweddol i chwarae yn yr awyr agored a gellid cynnwys canolfan anghenion dysgu ar dir un o'r ysgolion presennol.*
- Nid oedd safleoedd eraill ar gyfer yr ysgol fawr, megis Glan yr Afon ym Mhontardawe, wedi cael eu hadolygu.*

- *Unwch Alltwen a Godre'rgraig oherwydd dyma'r ddwy ysgol gynradd agosaf at y safle newydd.*
- *Rhagdybid y byddai gwahanu'r plant o ysgol Godre'rgraig yn gynhennus, fodd bynnag, roedd llawer o blant o ddalgylch Godre'rgraig yn byw yn agosach at Ystalyfera. Awgrymwyd felly fod dadl dros rannu'r plant a'u cynnwys yn rhannol yn un o ysgolion presennol Pontardawe ac yn rhannol mewn ysgolion yn Ystalyfera, â'r ysgolion eraill yn parhau yn eu lleoliadau presennol.*
- *Buaswn o blaid creu dwy ysgol â hyd at 400 o ddisgyblion yr un. Un ym mhen gogleddol y cwm yn cwmpasu Godre'rgraig, Graig Newydd, Panteg ac Ystalyfera ac un yn y pen deheuol. Gellid sefydlu'r ysgol ddeheuol ar dir gerllaw ysgol bresennol Alltwen. Gallai ddarparu ar gyfer disgyblion o Langiwg ac Alltwen.*
- *Heb os, yr ysgolion cynradd mewn cymunedau lleol yw hunaniaeth, calon ac enaid y gymuned.*
- *Mae tystiolaeth empirig wedi dangos y collir 'enaid' y gymuned ar ôl cau ysgol gymuned. Mae'r pandemig presennol wedi amlygu rôl hanfodol cymunedau o ran helpu pobl trwy gydol eu bywyd.*
- *Mae'r diffyg darpariaeth wedi'r ysgol a darpariaeth amlapiol yn yr ysgol newydd arfaethedig yn destun pryder sylweddol.*
- *Rwy'n amau a gaiff y gymuned a rhieni fynediad at yr ysgol newydd arfaethedig.*
- *Mae angen cynnwys yr effaith ar fusnesau lleol yn yr ymgynghoriad hefyd.*
- *Nid oedd yn eglur a fyddai rhai o'r meysydd chwaraeon presennol, manau chwarae plant ac ati yn cael eu colli yn ystod yr adleoli.*
- *Mae'r gwelliant arfaethedig i gyfleusterau hamdden yn hollol angenrheidiol i'r ardal leol, ond credaf y dylid ei ystyried yn ddatblygiad ar wahân ac ni ddylid ei ddefnyddio i geisio denu cefnogaeth i gynnig yr ysgol fawr.*
- *Rwy'n gwerthfawrogi'r rhesymau dros gynnal yr ymgynghoriad hwn ar-lein yn hytrach na wyneb yn wyneb oherwydd pandemig Covid-19, ond rwy'n pryderu, o ganlyniad i hynny, y gallai'r ymgynghoriad hwn fod yn gwahaniaethu yn erbyn aelodau'r cyhoedd sydd heb ryngrwyd megis yr henoed yn y gymuned ayyb. Mae'n bwysig gwrandao ar eu safbwyntiau hwythau hefyd.*
- *Mae gennyf i bryderon sylweddol am amseriad y cynnig hwn tra bo'r wlad yng ngafael pandemig ac yn cael trafferth ymdopi, mae'n ymddangos fod hyn yn cael ei yrru ymlaen heb lawer o sylw. Mae angen i ni drafod y cynnig hwn a'r agweddau cadarnhaol a negyddol cysylltiedig heb unrhyw beth allanol i dynnu sylw – nid nawr yw'r adeg honno.*
- *Credaf fod y ddogfen ymgynghori yn ddiffygiol yn ei hanfod ac nid yw'n sicrhau y caiff rhanddeiliaid yr holl ffeithiau sy'n ofynnol i gynnig sylwadau seiliedig ar wybodaeth.*

- *Mae cymaint o anghywirdebau yn yr ymgynghoriad, ni ellir dibynnu arno fel dogfen deg, ddiragfarn. Mae'r cynnig yn hollol groes i'r polisiau cenedlaethol ynghylch llesiant, y newid yn yr hinsawdd a theithio llesol. Byddai'r cynnig yn golygu benthyca symiau sylweddol, sydd ddim yn ofynnol ac nid yw'r gymuned o blaid hynny.*
- *Mae'r cynnig yn ddiffygiol yn y bôn ac mae ei ffocws yn llawer iawn rhy gyfyng – efallai ei fod yn anghyfreithlon o gyfyng. Mae wedi'i ddylanwadu'n drwm gan ddau obsesiwn y cyngor, sef arbedion ariannol a chanlyniadau addysgol yn unig. Nid yw'n llwyddo i fynd i'r afael â gofynion cyfreithiol ehangach Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n symud ffocws cyrff cyhoeddus megis Cyngor Castell-nedd Port Talbot oddi wrth enillion o ran canlyniadau gwasanaethau (megis arbedion ariannol neu ganlyniadau addysgol) i gysylltiad llawer cryfach â deilliannau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau nawr ac yn y dyfodol.*
- *Mae gan y cyngor ddyletswydd gyfreithiol, o dan y Ddeddf, i gyflawni unrhyw ddatblygiadau yn unol ag egwyddor 'datblygu cynaliadwy', sef y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, er mwyn cyflawni POB UN o'r saith nod llesiant a ddisgrifir yn y Ddeddf, nid un neu ddau yn unig fel mae'r ddogfen hon yn amlwg yn ei wneud.*
- *Rwy'n dadlau'n gryf fod y cynnig hwn, a fyddai'n arwain at gau nifer o ysgolion cymunedol pwysig, yn tansellio dyletswydd y Cyngor o dan y ddeddf yn ddifrifol i sicrhau "Cymru o gymunedau cydlynol" trwy rwygo calon y cymunedau ohonynt.*
- *Nid yw'r ymgynghoriad yn deg nac yn niwtral, ac mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl ac yn mynnu hynny. Ym mhob rhan o'r adroddiad, caiff pob dewis arall ei ddiystyru heb broses deg. Mae ffigurau wedi'u haddasu i sicrhau fod y canlyniad y mae'r Cyngor yn ei ddymuno yn ymddangos yn apelgar a'r holl opsiynau eraill yn amhosibl. Mewn rhai rhannau o'r adroddiad, mae hyn bron iawn yn dwyllodrus.*
- *Credaf fod angen ymgynghoriad newydd, gonest a thryloyw i alluogi unrhyw un i gynnig awgrym clir.*
- *Fel cymuned, rydym yn teimlo fod y cynigion hyn yn cael eu cyflwyno ac mae'r ffaith ein bod ni wedi cael dim ond ffurflen PDF anodd ei llenwi yn ei gwneud hi'n anodd iawn i ni wrthwynebu. Mae'n teimlo fod hyn yn cael ei wneud mor dawel ag y bo modd fel y gall y nifer leiaf o bobl wrthwynebu.*
- *Mae'n ymddangos mai'r dewis yw derbyn neu wrthod y cynnig yn ei gyfanrwydd. Oni ddylai achos pob ysgol gael ei drin a'i drafod ar wahân, gan gofio fod pryderon a chyd-destun pob ysgol yn wahanol?*
- *Beth fydd yn digwydd os mai gwrthod y cynnig fydd yr ymateb?*
- *Nid oes dewis i adolygu ailagor Godre'rgraig. Pam nad yw hyn yn ddewis?*

- *Pam nad yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi ysgrifennu at gymunedau lleol ynghylch cynnig mor sylweddol?*
- *Mae mwyafrif helaeth y gymuned eisoes yn teimlo fod y cyngor wedi penderfynu'n barod ac na chaiff ein lleisiau eu clywed.*
- *Ymarfer arbed arian yw hyn. Os gwelwch yn dda, ailystyriwch a gadewch i'n cymunedau barhau i fod yn fywiog trwy ganiatáu i'r ysgolion cymunedol hyn gael yr arian y bydd gennych chi ar gyfer yr ysgol fawr.*
- *Mae'n amlwg mai penderfyniad ariannol yw hyn, ond er y gellir gwneud arbedion, mae'n amlwg y bydd hynny yn effeithio'n andwyol dros ben ar addysg y bobl ifanc hyn. Rwy'n pwysu amoch chi i ailystyried penderfyniad y mae ei unig rinwedd yn ymwneud ag arbed arian yn hytrach nag ystyriaeth o anghenion a llesiant plant ifanc.*
- *Roedd anghysonderau o ran y nifer arfaethedig o ddisgyblion yn y dyfodol rhwng y tair ysgol ar wahân a'r ysgol fawr. Roedd hynny fel pe bai'n awgrymu gormod o gapasiti yn yr ysgol fawr arfaethedig ac ni fyddai hynny'n gost effeithiol.*

### **Ymatebion Cyrff Llywodraethu**

Mae corff llywodraethu Ysgol Gynradd Alltwen wedi ymateb gan ddweud: *'Mae gormod o gwestiynau heb eu hateb ar hyn o bryd oherwydd nid oes digon o wybodaeth fanwl yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad. Oherwydd hynny, ni allwn ni ffurfio barn i gefnogi na gwrthwynebu'r cynnig ar yr adeg hon.'*

Mae'r ymateb yn cynnwys pryderon a fynegwyd gan ymgynghoreion eraill hefyd, ac mae hefyd yn cynnwys canlyniadau arolygon a wnaed gan y Llywodraethwyr ynghylch safbwyntiau staff a disgyblion yn yr ysgol. Yn ychwanegol, mae pryderon wedi cael eu mynegi ynghylch darpariaeth gofal plant Hoots sy'n cael ei chynnal ar safle ysgol gynradd Alltwen.

Mae'r Llywodraethwyr hefyd yn gofyn am ragor o eglurhad a sicrwydd ynghylch y canlynol:

- Sut fyddai ysgol fawr yn ymdopi â phandemig megis Covid?
- Yr ymrwymiad i ddarparu pwll newydd ar gyfer Pontardawe
- A wnaiff y disgyblion elwa o'r cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r pwll newydd, yn enwedig teuluoedd o gefndiroedd incwm isel?

Cafwyd ymatebion hefyd gan gyrff llywodraethu YGG Pontardawe ac YGG Trebannws. Mae'r ddau ymateb yn canolbwyntio ar effaith posibl y cynnig ar ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ac ar ddatblygiad y Gymraeg yn ei chyfanrwydd.

Yn ychwanegol, mynegwyd y pwyntiau penodol hyn:

- A oes ystyriaeth i'r holl ysgolion yn yr ardal sy'n parhau i fod agor gael mewnbwn ariannol er mwyn gwella cyfleusterau ar gyfer addysg yr 21ain ganrif?
- Rydym ni'n credu ei bod hi'n bwysig i bob disgybl yn yr ardal gael ei drin yn gyfartal. Hoffem i chi ystyried cynllun strategol i sicrhau fod pob ysgol yn yr ardal yn addas ar gyfer addysg yn yr 21ain ganrif.
- Nid oes unrhyw unedau cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod ac nid yw'r cynnig yn ymdrin â'r angen hwn sy'n cynyddu'n gyflym yn y sector.
- Yn sgil cynnig am ddwy uned cyfrwng Saesneg arall ar ben y rhai mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn eu cynnig yn barod, sut yn y byd all hyn fod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal?

### **Undebau Llafur**

Cafwyd ymateb gan Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn datgan *'Rydym ni'n cefnogi'r cyfle i wella darpariaeth addysgol yn yr ardal ac yn croesawu'r cyfleoedd cysylltiedig i ddatblygu staff a'u galluogi i symud ymlaen yn eu gyrfaoedd. Rydym ni fel undeb yn gofyn am sicrhau na chaiff unrhyw aelodau staff eu diswyddo'n orfodol o ganlyniad i'r cynigion hyn.'*

Mae'r ymateb hefyd yn nodi'r pryderon dilynol:

- Y canfyddiad ymhlith disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach o'r pwys mwy a roddir ar ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, o gymharu â darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Effaith ei hagosrwydd ar ddisgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn YGG Trebannws.
- Yn sgil hynny, byddai gwahaniaeth o ran yr adeiladau a'r cyfleusterau rhwng y cyfleusterau cyfrwng Cymraeg a'r rhai cyfrwng Saesneg. Byddai'r ysgol newydd mewn lleoliad canolog ac yn agos at gyfleusterau cymunedol a hamdden o ansawdd uchel.
- Yr effaith debygol y byddai'r adeilad a'r cyfleusterau newydd yn yr ysgol newydd yn ei chael ar ddisgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn YGG Pontardawe.
- Yr effaith posibl yn y tymor hir ar niferoedd yn YG Ystalyfera Bro Dur.
- Effaith y datblygiad ar dargedau Castell-nedd Port Talbot yn ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a tharged Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr y Gymraeg a'i hymroddiad i'r blaenoriaethau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef 'Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus'.

### **Cynghorau Cymunedau a Threfi**

Cafwyd ymatebion gan Gyngor Cymuned Cilybebyll, Cyngor Cymuned Ystalyfera a Chyngor Tref Pontardawe.

Cyfeiriodd Cyngor Cymuned Cilybebyll at bryderon am effaith yr ysgol newydd arfaethedig ar gymuned Rhos ac Ysgol Gynradd Rhos.

Gofynnwyd am gadarnhad ynghylch y pwyntiau dilynol hefyd:

- Maint posibl y llain sy'n ofynnol
- Nodwyd y byddai buddsoddiad sylweddol mewn TG yn yr ysgol newydd arfaethedig – pam na ellid buddsoddi'r arian hwn yn y 3 ysgol gynradd yn lle hynny, i'w diweddarau?

Mynegodd Cyngor Cymuned Ystalyfera bryderon am yr effaith ar y gymuned pe bai Godre'rgraig yn cau, ynghyd â phryderon am y pellter i'w deithio, difreintedd yn yr ardal, a phryderon o ran yr effaith ar y Gymraeg. Nodwyd hefyd, yn hanesyddol, fod 1 ysgol gynradd Gymraeg ac 1 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn ardal cyngor cymuned Ystalyfera bob amser. Byddai cau Ysgol Gynradd Godre'rgraig yn golygu llai o ddewis i drigolion lleol o ran yr ysgol i anfon eu plant iddi, sy'n gwahaniaethu.

Dywedodd Cyngor Tref Pontardawe eu bod yn deall y byddai rhai buddion yn sgil creu ysgol newydd fwy â chyfleusterau ychwanegol, ond roeddent yn credu fod yr anfanteision yn gorbwyso'r buddion yn sylweddol. Mynegwyd pryderon am faint yr ysgol newydd arfaethedig, colledion swyddi posibl, sut y byddid yn penderfynu cludiant, yr effaith ar gyfleusterau cymunedol gan gynnwys meysydd chwarae Parc Ynysderw, a'r gostyngiad posibl yn argaeledd y pwll pe bai'n cael ei ddefnyddio'n fwy rheolaidd gan ddisgyblion. Nodwyd yr ymholiad canlynol hefyd: 'Pe bai creu ysgol fawr yn well o safbwynt addysgol, pam nad oedd Rhyd y Fro ac Ysgol Gynradd y Rhos wedi cael eu cynnwys yn y cynigion?'

## **Estyn**

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig hwn yn debygol o gynnal y ddarpariaeth addysg gynradd cyfrwng Saesneg bresennol yn yr ardal o leiaf, a bod y cynnig yn 'debygol o ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddarpariaeth ar gyfer disgyblion oedran cynradd yn yr ardal. Mae'n debyg y byddai cyfleusterau newydd yn darparu buddion o ran llesiant disgyblion ac yn gwella darpariaeth y cwricwlwm. Dylai darpariaeth ychwanegol trwy gyfrwng canolfan cymorth dysgu fod yn fuddiol i ddisgyblion sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Mae pwll nofio newydd yn debygol o wella darpariaeth iechyd a llesiant yn yr ardal.'

Ym marn Estyn, 'Mae'r cynigydd wedi ystyried parhad darpariaeth y cwricwlwm ar gyfer pob disgybl yn briodol. Rhagwelir y bydd y cynnig yn fuddiol o ran darparu'r cwricwlwm ac yn cynnig profiadau dysgu gwell sy'n deillio o boblogaeth fwy o ddisgyblion a chyfleusterau pwrpasol.'



Nododd Estyn hefyd fod 'y cynigydd wedi rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynnig ar y Gymraeg'.

Dywed Estyn hefyd nad yw'r cynnig fel pe bai'n ystyried effaith mwy o draffig nac anawsterau mynediad na sut y byddir yn lliniaru'r risgiau a nodwyd, sef disgyblion yn gwrthwynebu newid, mwy o amser teithio a chymorth llai effeithiol â llesiant mewn ysgol fwy.

Ymatebir i sylwadau Estyn yn adrannau Ansawdd a Safonau Addysg, Rheoli Safle a Thraffig Arfaethedig, a Thrafnidiaeth a Theithio, yr adroddiad.

Mae'r ymateb llawn ar gael yn Atodiad B.

### ***Aelodau etholedig lleol, Cynghorwyr Tref ac Aelodau'r Senedd***

Yn ôl **Jeremy Miles, Aelod y Senedd dros Gastell-nedd**, '*Rwy'n croesawu'r buddsoddiad mewn addysg cyfrwng Saesneg yng Nghwmtawe, fel y gwnes i groesawu'r buddsoddiad mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg*'.

Mae'r ymateb hefyd yn nodi ymrwymiad i grynhoi safbwyntiau cyfranogwyr mewn cyfarfod ar-lein a gynhaliwyd gan Jeremy Miles i drafod y cynnig, sy'n cynnwys gwaith adferol yn y safleoedd presennol, maint yr ysgol, y gorlifdir, a'r dull o deithio, y pellter i'w deithio a diogelwch teithio. Nodwyd hefyd, '*Mynegwyd cefnogaeth gan rai cyfranogwyr i gyfleusterau modern a phwrpasol ar gampws mwy. Teimlid y byddai hyn yn cynnig lle hyblyg, wedi'i ddylunio i ddiwallu anghenion addysg gyfoes, yn hytrach na disgwyliadau bywyd ysgol ac addysgu yn yr oes pan adeiladwyd y tair ysgol bresennol*'.

Cyflwynwyd ymholiadau hefyd am niferoedd y disgyblion yn yr ysgol arfaethedig, cadarnhad o ddarpariaeth cludiant, a threfniadau rheoli traffig ar y safle, a rhagor o fanylion am deithio llesol.

Mynegwyd y farn hefyd y dylai'r Cyngor fod wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus ar-lein i ateb yr ystod o gwestiynau a dadlau'r achos dros y cynnig.

Fe wnaeth **Dr Dai Lloyd, Aelod o'r Senedd dros Dde Orllewin Cymru**, ofyn y cwestiynau dilynol, yn sgil cyfarfod rhithwir i glywed safbwyntiau'r cyhoedd. Gofynnwyd nifer o gwestiynau, yn cynnwys:

- Pam oedd yr opsiwn hwn yn fwy dymunol na'r gweddill?
- Pa waith sydd wedi'i wneud o ran sefydlu ysgol yn lle Ysgol Gynradd Godre'rgraig yng Ngodre'rgraig?
- Sut wnaiff yr Awdurdod ddiogelu disgyblion sy'n agored i niwed, gan sicrhau fod Clybiau Brechwast ac Wedi'r Ysgol ar gael iddynt?

- Pa asesiadau sydd wedi cael eu gwneud ynghylch yr effaith ar ysgolion cyfagos?
- Pam ddewiswyd y lleoliad ym mhen mwyaf deheuol y dalgylch?

Fe wnaeth Christopher Jones, Cynghorydd Alltwen, gyflwyno ymateb oedd yn adleisio safbwyntiau Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Alltwen, yn nodi y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r dewisiadau dilynol:

- Ail-fuddsoddi yn y safleoedd presennol
- Adeiladu ar safleoedd un neu ragor o'r ysgolion presennol
- Safleoedd eraill yn yr ardal
- Cyfuniadau eraill o ysgolion

Fe wnaeth Andrew Nicholson, Cynghorydd Tref Pontardawe, gyflwyno amrywiaeth o ymholiadau yn cynnwys y canlynol:

- Beth fydd yn digwydd os mai gwrthod y cynnig fydd yr ymateb?
- Nid yw'r cynnig i adeiladu pwll nofio newydd ar y safle yn nodi a gaiff ei adeiladau wrth ochr Canolfan Hamdden bresennol Pontardawe neu a gaiff ei **adeiladu o fewn** rhan o'r adeilad presennol?
- Os mai'r bwriad yw ei gynnwys yn rhan o'r adeilad presennol, pa gyfleusterau presennol (h.y. man chwarae bowls dan do) a gaiff eu colli yn sgil hyn?

### ***Adroddiad ynghylch Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot***

Mae aelod o'r gymuned hefyd wedi cyflwyno adroddiad ar y ddogfen ymgynghori. Mae'r adroddiad yn cynnwys 3 rhan, y cyntaf yn dwyn sylw at y diffygion canfyddadwy yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, yr ail yn awgrymu dewisiadau eraill a'r trydydd yn nodi canlyniad arolwg sydd wedi holi amrywiaeth o gwestiynau yn ymwneud â'r cynnig ac ysgolion yn fwy cyffredinol.

Mewn ymateb i ran un – cynhwysir data yn yr ymateb hwn sydd wedi'u casglu trwy gynnal arolwg annibynnol o aelwydydd yn yr ardal (ni ddarparwyd yr arolwg gyda'r ymateb, felly nid yw'r swyddogion wedi cael cyfle i adolygu'r data y cyfeirir atynt). Nid yw'n eglur pwy sydd wedi cynnal yr arolwg na pha aelwydydd a gyfrannodd, ac nid yw'n eglur sawl ymateb a gafwyd, ond mae'r data hyn wedi'u defnyddio i gyfiawnhau ac atgyfnerthu datganiadau a wneir yn yr ymateb. Mewn cyferbyniad, mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys data ynghylch disgyblion Castell-nedd Port Talbot a gasglwyd o bob ysgol; bydd yr holl ddata sydd gan y Cyngor am ddisgyblion yn cael eu harchwilio a'u gwirio'n rheolaidd, a chânt eu hanfon at Lywodraeth Cymru pan fo hynny'n ofynnol hefyd. Fel y cyfryw, ni ellir dibynnu ar yr adroddiad a gyflwynwyd â'i

ddata cyfyngedig i ddarparu gwybodaeth gywir yn gyffredinol. Mae hefyd yn cynnwys nifer o ddatganiadau anghywir a chamarweiniol, er enghraifft, bydd y Cyngor yn 'defnyddio arian a godir trwy werthu safleoedd yr hen ysgolion i glirio'r benthyciadau darbodus' ac yn 'trosglwyddo cyfleuster nofio o'r cyhoedd i'r ysgolion'. Mae'r ddau ddatganiad yn anghywir ac ymatebir iddynt mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

Nodir mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn fod proses yr ymgynghoriad wedi cadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru a gellir ei gymharu ag ymgynghoriadau eraill o dan gynigion ad-drefnu ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif sydd wedi'u cyflwyno yng Nghastell-nedd Port Talbot ac y mae Llywodraeth Cymru wedi'u harchwilio a'u derbyn fel rhan o'r prosesau sydd dan sylw.

Mewn ymateb i ran 2 - mae'r adran hon yn ymwneud â'r farn y byddai gwella'r tair ysgol ar eu safleoedd presennol yn well nag adeiladu ysgol ar gyfer yr 21ain ganrif o'r newydd. Unwaith yn rhagor, mae'r adran hon yn cynnwys llawer o anghywirdebau ac mae'n gwneud rhagdybiaethau sydd ddim fel pe baent yn seiliedig ar unrhyw dystiolaeth ffeithiol. Dylid nodi nad yw'r enghraifft o'r Hen Ysgol yn Sir Gaerfyrddin y cyfeirir ati yn yr ymateb hwn yn ddefnyddiol oherwydd mae'n enghraifft o adeilad ysgol segur sydd wedi cael ei ailwampio'n helaeth ac sydd bellach yn cael ei ddefnyddio fel annedd preswyl a chanolfan hyfforddiant. Mae cost gweddol fychan y prosiect hwn y cyfeirir ato yn anwybyddu'r ffaith fod y datblygwr wedi treulio 6 blynedd o'i amser a'i gynilon ei hun yn gwednewid yr eiddo, felly nid yw'r £600,000 y cyfeirir ato yn adlewyrchiad gwirioneddol o gost eu llafur (yn cynnwys llafur ffrindiau a theulu). Nid yw gofynion trydan a gwres ysgol yn cyfateb i rai Hen Ysgol (llosgwyr boncyffion, cyfarpar ffotofoltaidd i gynhyrchu pŵer ac ati). Byddai'n ymddangos hefyd yn ôl troed llawer llai nag unrhyw un o'r tair ysgol yn y cynnig hwn. Efallai ei bod hi hefyd yn werth nodi fod yr ailwampio hwn wedi digwydd oherwydd roedd yn ysgol a gaewyd ac a werthwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin, ac fe symudodd disgyblion o'r pentref hwn a phentrefi cyfagos i ysgol newydd sbon. Mae manylion ynghylch pam nad yw'r swyddogion yn ffafrio gwella'r ysgolion presennol ar gael mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

Mewn ymateb i Ran 3 – mae'r adran hon yn cynnwys canlyniadau arolwg annibynnol 'a gynhaliwyd ymhlith trigolion ardal Pontardawe i holi eu barn am yr ysgol newydd arfaethedig', a dywedir fod yr arolwg wedi 'cyrraedd tua 300 o aelwydydd', ond nid yw'n glir faint o aelwydydd a ymatebodd, neu a oedd yr ymatebwyr yn ymwybodol o'r ddogfen ymgynghori neu a oeddent wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig (fel y nodwyd, ni ddarparwyd yr arolwg i'w archwilio gan swyddogion).

## ***Ymateb swyddogion***

### ***– Ansawdd a safonau Addysg***

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ansawdd a safonau addysg yn y tair ysgol, a chydabyddir fod y tair wedi gwneud cynnydd yn ystod blynyddoedd diweddar ac mae Estyn yn barnu eu bod yn 'Dda' mewn sawl maes. Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn ychwanegu at hyn ac yn datblygu'r cynnydd a wnaed gan yr ysgolion unigol, ac nid oes rheswm i gredu y byddai'r cynnig hwn yn effeithio'n negyddol ar safonau. Yn eu hymateb i'r cynnig, dywed Estyn: 'Bydd y cynnig hwn yn debygol o gynnal y ddarpariaeth addysg gynradd cyfrwng Saesneg bresennol yn yr ardal o leiaf'.

Mae'r cynnig yn gyfle i ddarparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf sy'n gweddu i'r 21ain Ganrif ac a wnaiff ddylanwadu'n gadarnhaol ar hunan-barch a llesiant disgyblion, a bydd yn ceisio sicrhau gwelliannau pellach o ran deilliannau dysgu i blant o bob rhan o'r ystod gallu. Yn sgil ysgol newydd, ceir mwy o ddewisiadau a chyfleoedd gwell, oherwydd ceir mwy o le a chyfleusterau gwell. Yn adroddiad Estyn yn 2007, '**Gwerthusiad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i adeiladau newydd neu adeiladau wedi'u hadnewyddu'n sylweddol**', adroddir bod cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion yn gwella'n sylweddol pan fyddant yn symud i adeiladau newydd neu adeiladau a adnewyddwyd yn sylweddol.

Bydd corff llywodraethu ac uwch dîm arwain yr ysgol arfaethedig yn ceisio adeiladu ar lwyddiant y tair ysgol gynradd a defnyddio'r sgiliau y gwnaiff y staff eu cyfrannu i sicrhau pontio didrafferth a pharhau â'u llwyddiant. Yn ystod blynyddoedd diweddar, mae nifer o ysgolion newydd wedi agor yng Nghastell-nedd Port Talbot, ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd. Yn groes i sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nid oes unrhyw un o'r ysgolion newydd yn 'methu', ac mae'n wir fod arolygon Estyn ac ymweliadau monitro ac adolygiadau gan yr awdurdod lleol wedi canfod fod y cyfleusterau ychwanegol sydd ar gael a'r amgylchiadau gwell ar gyfer addysgu a dysgu wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni, staff a'r gymuned.

### ***– Llesiant disgyblion***

Cafwyd sylwadau sy'n awgrymu y gwnaiff llesiant disgyblion ddioddef os gwnaiff y cynnig fynd rhagddo. Nid oes rheswm i ragdybio y byddai hynny'n digwydd, naill ai oherwydd symudiad i'r ysgol newydd arfaethedig neu oherwydd maint yr ysgol. Nodir fod yr ysgolion presennol yn darparu gofal a chymorth da, ac nid oes unrhyw beth i awgrymu na wnaiff yr ysgol newydd gynnig yr un peth o leiaf.

Mae cyfweiliadau anffurfiol a gynhaliwyd gydag aelodau cymunedau ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot ble mae ysgolion wedi uno neu ble mae disgyblion wedi symud o ysgol fechan sydd wedi cau i ysgol fwy wedi dangos y bydd disgyblion yn addasu i'r amgylcheddau newydd yn gyflym iawn, yn gwneud ffrindiau newydd, ac nid oes effaith negyddol ar eu cynnydd addysgol.

Cafwyd sylwadau sy'n awgrymu na wnaiff adeilad newydd ddylanwadu'n gadarnhaol ar lesiant, ac mai pobl sy'n dylanwadu ar hynny. Er ei bod yn wir y gall pobl wneud gwahaniaeth, mae'n wir hefyd yn gall arweinyddiaeth effeithiol mewn cyfleusterau pwrpasol ac amgylchedd a gwasanaethau'r ysgol ddylanwadu ar iechyd a llesiant disgyblion. Mewn adroddiad o'r enw 'Iach a Hapus – effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion' a gyhoeddwyd gan Estyn ym Mehefin 2019, mae'n datgan fod ysgolion sydd ag ymagwedd gynhwysol ac ysgol gyfan at gefnogi iechyd a llesiant disgyblion yn ceisio sicrhau fod profiad beunyddiol disgyblion yn yr ysgol yn gyson â negeseuon a roddir ynghylch iechyd a llesiant mewn gwersi, cyfarfodydd boreol, ac ym mholisiau ysgolion. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu disgyblion i fod yn unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas – un o bedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru sy'n cael ei ddatblygu. Dyma rai o'r ffactorau a oedd gan ysgolion da: Polisïau ac arferion sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu; dysgu proffesiynol parhaus i'r holl staff, sy'n eu galluogi i gefnogi iechyd a llesiant disgyblion a dysgu proffesiynol parhaus i'r holl staff, sy'n eu galluogi i gefnogi iechyd a llesiant disgyblion. Mae'n wir y bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn darparu'r agweddau pwysig hyn yn llawer iawn mwy effeithiol na beth all yr ysgolion presennol ei wneud.

Gall ffactorau eraill sy'n cynnal iechyd a llesiant disgyblion gael eu trosglwyddo o'r arferion da yn yr ysgol bresennol i'r ysgol newydd ac mae'r rhain yn cynnwys: arweinwyr sy'n 'gwneud y dweud' ynghylch cefnogi iechyd a llesiant disgyblion; diwylliant anogol, lle mae perthnasoedd cadarnhaol yn galluogi disgyblion i ffynnu; cymuned ac ethos cynhwysol; gwybodaeth fanwl am iechyd a llesiant disgyblion sy'n dylanwadu ar bolisiau a chamau gweithredu; cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cynnwys profiadau dysgu unigol, seiliedig ar dystiolaeth, sy'n hybu iechyd a llesiant; gofal bugeiliol cefnogol ac ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer disgyblion y mae arnynt angen cymorth ychwanegol.

Mae pryderon wedi'u mynegi am ddisgyblion yn colli ffrindiau pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Dylid nodi, os bydd yr holl ddisgyblion yn y tair ysgol ar adeg eu cau yn trosglwyddo i'r ysgol newydd arfaethedig, gellir cynnal ac ehangu grwpiau ffrindiau. Mae'n wir fod cynlluniau blaenorol i ad-drefnu ysgolion oll wedi sicrhau fod disgyblion yn parhau'n rhan o'u grwpiau ffrindiau agos, gyda staff sydd eisoes yn gyfarwydd iddynt, i sicrhau fod y broses o

bontio mor ddidrafferth ag y bo modd. Disgwylir y byddai tîm arweinyddiaeth yr ysgol newydd arfaethedig hefyd yn cydnabod pwysigrwydd hyn ac yn sicrhau y caiff ei ystyried.

### – **Maint yr ysgol**

Gall darpariaeth addysg fod yn fwy effeithiol mewn ysgolion mwy. Mae adroddiad 'Maint ysgolion ac effeithiolrwydd addysgol' a gyhoeddwyd gan Estyn yn Rhagfyr 2013 yn datgan fod 'darpariaeth y cwricwlwm yn well mewn ysgolion mawr' – mae hyn yn golygu y gall ysgolion mwy ddarparu llawer iawn rhagor o gyfleodd ar gyfer addysgu a dysgu. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion llawn yn cynnwys dadansoddiad o'r data a gasglwyd gan Estyn. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn ategu sylwadau a dderbyniwyd yn nodi y byddai poblogaeth fwy o ddisgyblion yn llesteirio datblygiad cymdeithasol plant. Mae sgiliau cymdeithasol yn dibynnu ar y gallu i gyfathrebu'n effeithiol. Unwaith yn rhagor, yn 'Maint Ysgolion ac Effeithiolrwydd Addysgol' dywed Estyn fod 'deilliannau asesu yn y Cyfnod Sylfaen yn gwella yn ôl maint yr ysgol ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu'.

Bydd nifer fwy o blant yn yr un grŵp oedran yn cynnig mwy o gyfleoedd i gymdeithasoli, nid llai. Mae Estyn hefyd yn canfod fod agweddau o ddatblygiad cymdeithasol yn rhagorol mewn 15% o ysgolion cynradd mawr, ac mewn dim ond 3% o ysgolion bychan.

Nid yw creu cymuned ysgol fwy yn golygu o reidrwydd fod 'naws deuluol' yr ysgolion yn dod i ben, ond efallai y bydd angen cynllunio mwy gofalus i sicrhau hynny. Mae'n bosibl creu 'ysgolion bychan' neu gymunedau o fewn strwythur yr ysgol fwy, naill ai trwy grwpiau blwyddyn/cyfnodau, ble cynllunnir gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer plant y dosbarthiadau penodol hynny a'u rheini, neu trwy systemau megis Grwpiau Tai, ble caiff plant a dosbarthiadau eu hisrannu'n adrannau ar wahân o fewn pob dosbarth ar gyfer digwyddiadau sydd fel arfer yn gystadleuol eu natur, megis diwrnodau chwaraeon neu eisteddfodau.

Efallai y bydd hi'n anoddach i bob aelod o staff adnabod pob disgybl unigol yn ôl ei enw wrth i'r boblogaeth o ddisgyblion gynyddu. Awgrymwyd y dylai'r Pennaeth adnabod pob disgybl i sicrhau fod safonau cyflawni yn gwella. Fodd bynnag, er bod dysgu enwai ac wynebaw'r disgyblion yn fedr clodwiw y gall llawer o benaethiaid ei chyflawni, nid yw'n sicrhau llwyddiant i'r disgyblion hynny. Ceir amrywiaeth helaeth o drefniadau a ddefnyddir gan dimau arweinyddiaeth i fonitro cynnydd disgyblion unigol ym mhob ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot, ac mae hyn yn rhan o'r adolygiad o berfformiad ysgolion y bydd ysgolion yn ei gael yn flynyddol.

Mae rhai ymgyngoreion wedi mynegi pryder am berthnasoedd rhwng staff a rhieni mewn ysgol fwy, gan nodi y bydd perthnasoedd da yn amhosibl yn sgil poblogaeth mor fawr o ysgolion. Unwaith yn rhagor, nid oes tystiolaeth ar gael i awgrymu fod hyn yn broblem mewn ysgolion mwy. Ar waethaf maint yr ysgol gyfan, mae'n debygol y bydd dosbarthiadau yn yr ysgol yn cynnwys 30 disgybl neu lai, ac nid oes rheswm i ddisgwyl na fydd athrawon a staff cymorth yn adnabod disgyblion eu dosbarth cystal ag y maent mewn unrhyw ysgol arall. Disgwylir yn yr un modd y bydd perthnasoedd â rhieni yr un mor bwysig i'r staff yn yr ysgol newydd arfaethedig ag y maent yn y tair ysgol bresennol.

Ni ddisgwylir y bydd cysylltiadau rhieni â'r ysgol newydd arfaethedig yn salach nag ydynt ar hyn o bryd, a gall nifer fwy o rieni olygu cymuned ysgol fwy bywiog ac amrywiol i gefnogi gweithgareddau'r ysgol ac i sefydlu grwpiau cynorthwyo. Ni ddylai perthnasoedd da sydd wedi'u sefydlu rhwng yr ysgol, rhieni a'r gymuned gael eu colli os bydd mwyafrif y staff o'r ddwy ysgol yn trosglwyddo i'r ysgol newydd fel y rhagwelir, oherwydd byddai hyn yn golygu fod y cyfoeth o brofiad a gwybodaeth leol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cael eu cynnal a'u datblygu at y dyfodol.

Derbyniwyd sylwadau sy'n awgrymu y gwnaiff yr ysgol newydd arfaethedig atal y cwricwlwm newydd rhag cael ei ddarparu'n effeithiol mewn perthynas â dylanwadau cymdeithasol ar sail eu hardal leol. Fodd bynnag, bydd cyfle i astudio'r gymdogaeth a'r gymuned ble mae'r disgyblion yn byw yn unol â phedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru, yn enwedig o fewn diben 'dinasyddion egwyddorol gwybodus'. Bydd cyfle hefyd i ddysgu am dreftadaeth hanesyddol a gwerthoedd diwylliannol ehangach o ardal ehangach Cwmtawe a deall y gwahaniaethau cynnil rhwng cymuned yn yr ardal. Bydd y llywodraethwyr a'r uwch dîm arwain yn yr ysgol arfaethedig yn sicrhau fod hyn yn rhan o'u rhaglen dysgu.

Er bod llawer o fuddsoddiad mewn TGCh yn holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd, mae oedran a chyflwr adeiladau llawer o ysgolion yn ei gwneud hi'n anodd sicrhau ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth a fyddai'n ddymunol at y dyfodol. Yn achos prosiectau adeiladau newydd, bydd y tîm TGCh yn cyfranogi o'r cam cynllunio ymlaen i sicrhau fod gan ddisgyblion gyfleusterau TGCh addasadwy a thechnoleg symudol integredig sy'n addas ar gyfer dysgu yn yr 21ain ganrif, a chaledwedd a meddalwedd priodol (pwyntiau trydan a data, modema Wi-Fi ac ati) i gael eu cynnwys yn y broses o baratoi'r ysgolion at y dyfodol a sicrhau'r atebion gorau posibl ar gyfer anghenion addysgu a dysgu'r dyfodol.

Mae pryderon wedi'u nodi ynghylch rheoli ysgolion mwy o dan gyfyngiadau presennol Covid. Mae profiad hyd yn hyn wedi dangos fod yr ysgolion newydd

mwy ar gyfer yr 21ain ganrif wedi canfod ei bod hi'n haws ar y cyfan i weithredu o dan y canllawiau gweithredol a'r rheoliadau presennol nag yn achos ysgolion hŷn. Mae hyn yn rhannol oherwydd mae mwy o le ar gael i reoli staff a disgyblion, yn cynnwys ystafelloedd dosbarth mwy, coridorau lletach a mwy o argaeledd o ran manau cylchredeg hyblyg. Mae gan ysgolion newydd gyfleusterau awyr agored pwrpasol sy'n cynorthwyo â dysgu yn yr awyr agored, a anogir hynny i atal heintio. Yn gyffredinol, mae gan ysgolion newydd fwy o fynedfeydd ac allanfeydd ar gyfer disgyblion, yn cynnwys mynediad uniongyrchol o'r awyr agored i'r dosbarthiadau, gan osgoi tagfeydd ar adegau dechrau a gorffen. Mae hefyd yn wir fod y cyfleusterau yn well ar y cyfan, a cheir mwy o doiledau wedi'u lleoli'n briodol ar draws adeilad yr ysgol. Yn ychwanegol, mewn adeiladau newydd, ceir sinciau ym mhob dosbarth cynradd fwy neu lai, sy'n golygu ei bod hi'n haws rheoli golchi dwylo gyda disgyblion iau.

### — **Staffio**

Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, bydd y cynnig yn golygu newidiadau sy'n effeithio ar gyflogaeth staff yr ysgolion. Bydd yr holl ysgolion presennol yn cau ar 31 Awst 2024. Pan fyddant yn cau, bydd yr holl staff yn peidio â bod wedi'u cyflogi yn eu hysgolion penodol. Bydd yr ysgol newydd yn sefydlu strwythur staffio sy'n briodol i'w hanghenion a'i chyllideb.

Sefydlir corff llywodraethu dros dro cyn agor yr ysgol gynradd. Bydd y corff llywodraethu dros dro yn gyfrifol am benodi pennaeth.

Yn benodol mewn perthynas â swyddi'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth, polisi'r Cyngor yw hysbysebu'r rhain yn genedlaethol. Ar ôl penodi'r pennaeth, bydd yr unigolyn hwnnw/honno, ar y cyd â'r corff llywodraethu dros dro, yn gyfrifol am bennu strwythur staffio'r ysgol gynradd newydd.

Cyflogir holl staff yr ysgol gan gyngor Castell-nedd Port Talbot. Fel rhan o'r broses, bydd yr holl staff sy'n gweithio yn yr ysgol yn cael eu cynorthwyo gan bolisiau a gweithdrefnau perthnasol eu hysgol, a fydd yn cynnwys ymgynghori llawn. Mae profiad blaenorol wedi dangos fod rhai staff yn dymuno canfod cyflogaeth yn yr ysgol newydd, ond bydd eraill yn dymuno derbyn heriau newydd mewn manau eraill. Bydd cyflogeion y nodir eu bod mewn perygl o gollu eu swydd yn cael mynediad at gofrestr ystyriaeth flaenorol y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynorthwyo staff sy'n wynebu diswyddo gorfodol ac mae wedi sicrhau cefnogaeth ac ewyllys da'r cymdeithasau athrawon/undebau llafur a'r cyrff llywodraethu ar draws y Cyngor, trwy gyfrwng addewid cyflogwyr. Mae gan y Cyngor enw da am gynorthwyo staff dan amgylchiadau o'r fath.

Bydd y Cyngor yn ceisio clustnodi staff presennol ysgolion cynradd Alltwen, Godre'rgraig a Llangiwg (ac eithrio swyddi Penaethiaid a Dirprwyon) i



strwythur staffio'r ysgol newydd, ac felly, yn rhoi blaenoriaeth iddynt mewn perthynas ag apwyntiadau. Fodd bynnag, penderfyniad y corff llywodraethu dros dro yw hwn.

Ceir pryderon y gwnaiff staff presennol yr ysgol adael yn sgil y bygythiad o gau ac y caiff y disgyblion addysg salach o ganlyniad i hynny. Mae'r risg y gwnaiff niferoedd sylweddol o staff adael yr ysgol yn dilyn ad-drefnu ysgolion yn fychan ac nid oes unrhyw dueddiadau yn y gorffennol i awgrymu y byddai hyn yn digwydd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parchu hawliau staff i ddatblygu eu gyrfaoedd a byddai hynny'n wir pa un ai a fyddai'r Cyngor yn cau ysgol neu beidio.

### – ***Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol***

Mae dadansoddiad o'r data yn awgrymu fod nifer o ddisgyblion yng Nghwmtawe yn teithio i gael cymorth dysgu ychwanegol mewn unedau arbenigol mewn rhannau eraill o Gastell-nedd Port Talbot. Byddai creu darpariaeth newydd yn yr ysgol newydd arfaethedig yn darparu lleoedd ychwanegol mewn ardal ble mae angen wedi'i nodi, a gallai hynny wneud pontio'n haws a galluogi disgyblion i integreiddio â'u grwpiau ffrindiau a'u cyfoedion yn y dosbarthiadau prif ffrwd os yn bosibl.

Bydd y ddarpariaeth arfaethedig yn cael ei rheoli gan yr ysgol a bydd yn rhan o drefniadau llywodraethu'r ysgol. Bydd y staff hefyd yn cael eu cyflogi gan yr ysgol a byddant yn rhan o dîm addysgu'r ysgol. Bydd disgyblion yn y ddarpariaeth arfaethedig yn elwa o gael eu haddysgu gan staff arbenigol, sydd â phrofiad o weithio gyda disgyblion sydd ag anghenion yn ymwneud ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig a bydd hefyd yn caniatáu cyfleodd i blant ddysgu yn eu cymuned leol. Ceir posibilrwydd hefyd y gallai disgyblion yn y brif ffrwd sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig elwa o'r arbenigedd fyddai ar gael yn y ganolfan cymorth dysgu i gynorthwyo ag addysgu a dysgu ym mhob rhan o'r ysgol, ac yn enwedig â llesiant y disgyblion hynny y mae arnynt angen cymorth ychwanegol.

Cafwyd sylwadau sy'n datgan na fyddai'r ganolfan cymorth dysgu arfaethedig yn ddigon mawr hyd yn oed i gynorthwyo disgyblion ag ADY yn Alltwen. Disgwylir i bob ysgol reoli disgyblion ag ADY yn eu dosbarthiadau prif ffrwd; dim ond disgyblion sydd â lefel uwch o anghenion sy'n cael lle mewn darpariaeth arbenigol. Mae pob canolfan cymorth dysgu yng Nghastell-nedd Port Talbot yn darparu addysg i blant sydd ag ADY o amrywiaeth o ysgolion eraill; nid plant o'r ysgol ble lleolir y ganolfan cymorth dysgu fydd yr unig fynychwyr. Fel y cyfryw, ni fyddai'r ganolfan cymorth dysgu yn darparu cymorth penodol i ddisgyblion ag ADY o'r ysgolion presennol, oni bydd gan ddisgybl ddatganiad ynghylch anhwylder sbectrwm awtistig sy'n argymhell lleoliad mewn cyfleuster arbenigol. Mae data o CYBLD 2020 yn dangos y

byddai digon o le i'r holl ddisgyblion sydd â datganiad yn ymwneud ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig, o fewn yr oedran cynradd ac yn byw yng Nghwmtawe, i gael lle yn y ganolfan cymorth dysgu newydd sydd wedi'i chynllunio fel rhan o'r cynnig. Mae hyn yn cynnwys disgyblion mewn ysgolion yng Nghwmtawe sydd ddim yn rhan o'r cynnig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gallai disgyblion o'r tu allan i'r ardal gael eu lleoli yn y ganolfan cymorth dysgu hefyd pe bai'r angen yn codi.

Dylid nodi nad yw'r ganolfan cymorth dysgu yn YGG Trebannws yn rhan o'r cynnig hwn. Nid yw darpariaeth ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg yn cael sylw yn yr ymgynghoriad hwn oherwydd mae'n gynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â chanolfan cymorth dysgu. Pe bai angen am ganolfan cymorth dysgu cyfrwng Cymraeg yn cael ei nodi, byddai angen cynnal proses ar wahân, yn cynnwys ymgynghoriad llawn â rhanddeiliaid perthnasol.

Yn aml iawn, bydd gan ysgolion mwy fwy o allu i fynd i'r afael ag anghenion dysgu penodol. Yn ôl Estyn, 'Gall ysgolion cynradd mawr a chanolig hefyd nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn well yn gynnwys a gwneud yr addasiadau angenrheidiol yn y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hynny. Mae hyn yn aml am fod ganddynt athrawon sy'n gwybod ac yn deall am anghenion ychwanegol penodol sy'n gweithio gyda'r disgyblion hyn yn uniongyrchol neu'n rhoi arweiniad a chymorth i athrawon a staff cymorth eraill.' - Maint Ysgolion ac Effeithiolrwydd Addysgol, Rhagfyr 2013

### – ***Y safle arfaethedig a rheoli traffig***

Mae'r cynnig yr ymgynghorir yn ei gylch ar hyn o bryd yn ymwneud â sefydlu ysgol newydd. Pe caiff y cynnig ei gymeradwyo, byddai ymdrin yn drylwyr â rheoli traffig a llwybrau diogel ar gyfer disgyblion a rhieni yn rhaganghenraid i gael caniatâd cynllunio.

Bydd pob ysgol newydd a adeiladir yng Nghastell-nedd Port Talbot yn destun craffu trylwyr mewn perthynas â phriffyrdd a chynllunio cyn rhoddir caniatâd cynllunio, ac mewn sawl achos, fel rhan o'r cynllun, mae gwaith sylweddol wedi arwain at wella rheolaeth traffig a threfniadau mynediad yn yr ardal. Mae'r prosesau hyn wedi ennill eu plwyf a gwelwyd dros flynyddoedd lawer eu bod yn ddibynadwy. Disgwylir y bydd nifer ddigonol o leoedd parcio i staff ac ymwelwyr yn ogystal â manau gollwng ar gyfer rhieni a bysys yn ofynnol i gael caniatâd cynllunio. Byddai'r elfennau hyn yn cael eu datblygu fel rhan o'r cynllun a byddent yn ceisio gwella'r trefniadau presennol yn safle Parc Ynysderw.

O ran effaith posibl yr ysgol arfaethedig ar y priffyrdd, byddai angen Asesiad Effaith Cludiant ynghyd â Chynllun Teithio trylwyr.

Byddai'r Asesiad Effaith Cludiant yn cyd-fynd â gofynion sy'n rhan o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18 Llywodraeth Cymru. Nod yr Asesiad yw cyfathrebu effeithiau'r datblygiad hwn ar briffyrdd a thrafnidiaeth yn glir, gan ddangos y bydd lleoliad y datblygiad hwn yn bodloni'r allbwn traffig a ddymunir ac a ragwelir, o ran teithiau traffig, oedi a chapasiti. Bydd yr asesiad yn darparu data trwy gyfrwng arolygon traffig, i ddangos lefelau presennol symudiadau traffig, cerddwyr a beicwyr, ynghyd ag effeithiau tebygol y datblygiad newydd ar symudiadau a chapasiti presennol traffig.

Trwy ddadansoddi, bydd y Cyngor yn gwerthuso'r effeithiau posibl ar batrymau symud presennol ac arfaethedig, a bydd yn ceisio lliniaru'r effeithiau cludiant negyddol trwy broses ddylunio priffyrdd drylwyr, ac amodau cynllunio.

### – **Cludiant a Theithio**

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru yn *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol, Mehefin 2014*. Bydd yr asesiad yn cynnwys ystyried amrywiaeth o agweddau yn cynnwys rheoli traffig, llwybrau troed, goleuadau a chroesfannau sydd ar gael.

Mae holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot wedi ymrwymo i annog cerdded a beicio i'r ysgol lle bo hynny'n bosibl. Yn achos llawer o'r disgyblion o oedran cynradd, mae lleoliad arfaethedig yr ysgol newydd ar y safle yn Ynysderw yn dal o fewn pellter teithio o 2 filltir yn achos cartrefi'r dalgylch.

Bydd tîm Diogelwch y Ffyrdd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn casglu data am ddulliau cludiant gan holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot yn flynyddol. Ar sail data a gasglwyd yn 2019, mae canran uchel o ddisgyblion ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwig yn teithio i'r ysgol mewn car neu dacsî - 56% o ddisgyblion Ysgolion Cynradd Alltwn a 70% o ddisgyblion Ysgolion Cynradd Llangiwig. Bellach, mae mwyafrif disgyblion Godre'rgraig (85%) yn teithio ar fws, fel y byddid yn disgwyl yn sgil y pellter ychwanegol i'w deithio i'r safle dros dro. Fodd bynnag, cyn symud i Barc Ynysderw, roedd 47% o'r disgyblion yn teithio i'r ysgol mewn car neu dacsî.

Yn gyffredinol, mae'r data yn dangos fod nifer y disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol neu'n defnyddio beic neu sgwter i gerdded yno yn gymharol fach o

gymharu â'r nifer sy'n defnyddio ceir neu dacsis, ac mae'n ymddangos mai dyna oedd y sefyllfa dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae gan bob un o'r tair ysgol ddisgyblion o'r tu allan i'w dalgylch - mae 44% o ddisgyblion Alltwen yn byw tu allan i ddalgylch yr ysgol, mae 37% o ddisgyblion ysgol gynradd Llangiwig yn byw tu allan i ddalgylch Llangiwig, ac mae 25% o ddisgyblion Godre'rgraig yn byw tu allan i ddalgylch Godre'rgraig, sy'n awgrymu fod yr ysgolion presennol eisoes yn cyfrannu at draffig yn yr ardal.

Mae amcangyfrif o'r niferoedd o ddisgyblion sy'n byw ymhellach na 2 milltir o safle'r ysgol newydd arfaethedig ym Mharc Ynysderw, ar sail niferoedd a chyfeiriadau'r disgyblion sydd yn dair ysgol ar hyn o bryd, yn awgrymu y gallai 176 disgybl fod yn gymwys i gael cymorth â chludiant, sy'n diddymu'r angen i rieni gludo disgyblion i'r ysgol mewn ceir. Bydd cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol ar gael yn unol â pholisi Teithio Cartref i Ysgol y Cyngor. Disgwylir i amseroedd teithio o'r cartref i'r ysgol yn y dalgylch fod o fewn y terfynau rhesymol i ddisgyblion cynradd.. Mae gweddill y disgyblion yn byw ar lwybrau sydd wedi cael eu hasesu fel rhai diogel, er y caiff y llwybrau hyn eu hailasesu pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a phan fydd manylion y disgyblion fydd yn mynychu'r ysgol newydd yn hysbys. Bryd hynny, bydd Swyddogion Diogelwch y Ffyrdd Castell-nedd Port Talbot ar gael i gynorthwyo ysgolion, rhieni a disgyblion i gynllunio llwybrau diogel yn unol â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru.

O ran hyd amseroedd teithio, mae'r canllawiau ynghylch ad-drefnu ysgolion yn awgrymu na ddylai amseroedd teithio i ddisgyblion cynradd fod yn fwy na 45 munud. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau yn nodi'r dull o wneud y daith honno, h.y. cerdded, beicio, gwasanaeth bws lleol neu gerbyd dan gontract i'r ysgol.

Wrth ystyried teithio gan ddysgwyr, dylid cyfeirio bob amser at ganllawiau yn y Mesur Teithio gan Ddysgwyr, sy'n cyfeirio at filltired ac yn nodi fod gan ddisgyblion cynradd hawl i gael cymorth i deithio o'r cartref i'r ysgol os ydynt yn byw mwy na 2 filltir oddi wrth eu darpariaeth addysg addas agosaf neu os nad oes llwybr cerdded addas.

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru yn ystyried addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol. Mae Polisi Cymorth i Deithio o'r Cartref i'r Ysgol presennol y Cyngor yn adlewyrchu hyn, ac nid oes gan blant meithrin hawl i gael cymorth â chludiant. Dan rai amgylchiadau a lle bydd cyfleoedd ar gael, yn unol â threfniadau dewisol dros dro, gall rhieni disgyblion o oedran meithrin ofyn am ddefnydd o sedd wag ar gerbyd sy'n teithio ar hyd llwybr perthnasol ac sy'n addas ar gyfer disgyblion o oedran meithrin.

Nid yw'r trefniadau hyn yn llai ffafriol na'r rhai sy'n berthnasol i rieni eraill plant o oedran meithrin ledled y Fwrdeistref Sirol.

Cafwyd sylwadau sy'n datgan y bydd peidio darparu cymorth â chludiant ar gyfer disgyblion meithrin yn eu hatal rhag cael mynediad at addysg feithrin, rhywbeth a ystyrir yn neilltuol o bwysig yn yr achos hwn oherwydd y difreintedd yn yr ardal. Mae cynlluniau ad-drefnu blaenorol hefyd wedi mynegi'r pryderon hyn. Fodd bynnag, mae data yn dangos fod disgyblion sy'n mynychu'n amser llawn mewn dosbarthiadau derbyn hefyd wedi cyrchu darpariaeth feithrin, naill ai yn eu hysgol bresennol neu mewn ysgol arall. Mae hyn wedi cynnwys ysgolion ble mae disgyblion amser llawn yn cael cymorth â chludiant ac mae'n cynnwys ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig iawn. Byddai felly yn ymddangos yn annhebygol y byddai'r cynnig hwn yn effeithio ar ddisgyblion meithrin yn fwy nag yn achos unrhyw gynlluniau ad-drefnu ysgolion blaenorol.

Ni ddarperir cludiant ychwanegol i ddisgyblion i gyrchu'r clwb brechwast a gweithgareddau wedi'r ysgol. Bydd trefniadau yn cael eu gwneud gan bennaeth a Chorff Llywodraethu'r ysgol newydd os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, i geisio sicrhau fod yr holl ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn cael cyfleoedd cyfartal, ble bynnag y maent yn byw.

Nid yw trefniadau gweithgareddau allgyrsiol yn her anghyffredin i ysgolion sydd â disgyblion yn mynychu o du allan i'r ardal gyfagos. Mae ysgolion eraill wedi canfod amrywiaeth o atebion i'r broblem hon, yn cynnwys: trefniadau gyda chwmnïau cludiant, trefnu gweithgareddau yn ystod yr awr ginio neu ar adegau arall yn ystod y diwrnod ysgol neu hwyluso rhannu ceir â rhieni.

Bydd yr un trefniadau rheoli gweithredol yn gymwys os bydd disgyblion yn mynd yn sâl neu'n gorfod gadael yr ysgol yn ystod y dydd. Gwneir trefniadau wrth gefn a bydd ysgolion yn rheoli'r sefyllfa yn ffordd orau bosibl a'r fwyaf priodol, gan roi ystyriaeth bennaf i lesiant y disgybl bob amser.

Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd teithio mwy o bellter i ysgol yn effeithio'n andwyol ar gyfraddau presenoldeb, ac yn wir, gall darparu cludiant i'r ysgol effeithio'n gadarnhaol ar brydlondeb.

Mae diogelwch disgyblion a llesiant wrth gael eu cludo i'r ysgol yn flaenoriaeth sylweddol gan y Cyngor. Mae llawer o ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot a ledled Cymru yn derbyn disgyblion o du allan i ardal gyfagos yr ysgol, a bydd llawer iawn o blant yn cael eu cludo i'r ysgol bob dydd o rannau o'r Fwrdeistref Sirol.

Yn unol â pholisi cludiant y Cyngor, darperir tywysydd.

Mae'n debygol y bydd disgyblion ar draws yr ystod oedran cynradd yn teithio yn yr un cerbyd fel sy'n digwydd ym mhob rhan o'r fwrdeistref sirol; ni ragwelir y bydd hyn yn broblem, oherwydd bydd y disgyblion hyn yn mynychu'r un ysgol a byddant yn debygol o gymysgu ar adegau eraill yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae'r cynnig hwn yn cydnabod na fydd modd i rai plant gerdded neu feicio i'r ysgol, fel sy'n wir yn achos rhai o'r disgyblion sy'n mynychu'r tair ysgol. Fodd bynnag, bydd cyfleoedd yn dal i fod ar gael trwy gyfrwng cyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd ffordd iach o fyw, a bydd y cyfleusterau hamdden gwell ar y safle arfaethedig yn eu galluogi i gyfranogi mewn gweithgareddau sy'n hybu hyn ymhellach.

### – **Ôl-groniad Cynnal a Chadw**

Mae'r Cyngor wedi dilyn methodoleg a chanllawiau caeth Llywodraeth Cymru wrth asesu graddau cyflwr ac chostau ôl-groniad cynnal a chadw a hygyrchedd yr ysgolion sy'n rhan o'r cynnig hwn, gan sicrhau dull cyson ar draws ysgolion Cymru, ac mae wedi penodi ymgynghorydd annibynnol allanol i wneud arolwg o gyflwr Pwll Nofio Pontardawe.

Bydd gan bob ysgol fynediad at eu harolygon cyflwr bydd tîm amlddisgyblaethol o staff technegol i reoli materion cynnal a chadw yn cynorthwyo â hyn. Penodir syrfêwr adeiladu i'r ysgol i fonitro ac ymateb i faterion cynnal a chadw adeiladau.

Mae'n bwysig cadarnhau fod costau'r ôl-groniad cynnal a chadw a hygyrchedd sy'n deillio o'r adroddiadau am gyflwr yn amcangyfrifon. Mae costau'r ôl-groniad yn ymwneud ag adfer cyflwr yr adeilad, ac nid ydynt yn caniatáu ar gyfer gwella neu uwchraddio, a fyddai'n darparu cyfleusterau addysgu a dysgu gwell i ysgolion.

Nid yw cynnal y tair ysgol yn eu safleoedd presennol yn cael ei ystyried yn ddefnydd gorau o adnoddau neu gyfleusterau, oherwydd byddai hynny'n arwain at aneffeithiolrwydd o ran costau ac ni fyddai buddion posibl adeilad newydd yn cael eu gwireddu.

Byddai cynyddu niferoedd disgyblion ar un safle trwy gyfuno'r tair ysgol mewn cyfleuster pwrpasol newydd sbon yn ddefnydd llawer mwy effeithiol o arian cyhoeddus, byddai'n datrys y lleoedd ychwanegol ac yn darparu amgylchedd dysgu ar gyfer yr 21ain ganrif o'r radd flaenaf gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

## – ***Effaith ar Ysgolion Eraill***

Cafwyd sylwadau sy'n nodi y bydd y cynnig hwn yn effeithio'n negyddol ar ysgolion eraill, cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Cafwyd awgrym y byddai Ysgol Gynradd Rhydyfro wedi bod yn ddewis mwy addas i'w gynnwys oherwydd fe'i lleolir ym Mhontardawe, ac y dylid ei chynnwys yn lle Ysgol Gynradd Godre'rgraig, y nodir nad yw'n rhan o Bontardawe, ond yn rhan o ardal cyngor cymunedol Ystalyfera.

Er ei bod yn gywir dweud y gallai Ysgol Gynradd Rhydyfro gael ei hystyried yn ddewis gwell o safbwynt daearyddol, mae ffactorau eraill wedi diystyru cynnwys yr ysgol yn y broses hon. Yn gryno, adeiladwyd Ysgol Gynradd Rhydyfro yn gynnar yn y 1980au, felly mae'n weddol fodern, a dyma'r ysgol gyfrwng Saesneg fwyaf newydd yn yr ardal. Mae ganddi ddsbarthiadau hyblyg addas eu maint, neuadd bwrpasol, ardaloedd adnoddau a rennir, maes chwarae pwrpasol a digon o fannau chwarae caled allanol, ynghyd â lleoedd parcio ar y safle a lle i rieni ollwng a chasglu plant. Bydd yr ysgol hon yn canfod fod cyflawni'r cwricwlwm newydd gryn dipyn yn haws na'r tair ysgol a enwir yn y cynnig.

Ysgol Gynradd Rhos oedd yr unig un o'r bum ysgol na chynhwyswyd yn y Cynllun Strategol Amlinellol a anfonwyd at Lywodraeth Cymru yn 2017, ac mae'n dal i gael ei heithrio o'r cynnig hwn. Yn debyg i Ysgol Gynradd Rhydyfro, mae ffactorau eraill wedi cael eu hystyried yn achos Ysgol Gynradd Rhos ac eithrio ei lleoliad. Mae gan Ysgol Gynradd Rhos nifer o ddisgyblion sy'n mynychu o'r tu allan i'w ddalgylch cyfagos, yn cynnwys llawer o Gwmtawe, ond disgyblion sy'n teithio o ardal Bryncoch hefyd. Yn ychwanegol, mae datblygiad tai sylweddol newydd wedi cychwyn yn uniongyrchol dros y ffordd i'r ysgol, a gallai hynny ychwanegu at niferoedd y disgyblion yn y pentref y bydd angen eu cynnwys yn y dyfodol. Os ceir y niferoedd hyn o ddisgyblion, efallai bydd yn rhaid darparu lleoedd ychwanegol iddynt yn Ysgol Gynradd Rhos, ac ni ragwelir y bydd yn rhaid i ddisgyblion deithio i Bontardawe.

Cafwyd sylwadau hefyd yn nodi y bydd ysgol cyfrwng Saesneg newydd yn effeithio'n negyddol ar ysgolion Cymraeg yn yr ardal, a gwnaed cymariaethau â'r effaith ar Ysgol Gyfyn Ystalyfera pan agorodd Ysgol Gymunedol Cwmtawe yn 1996. Nodwyd hefyd y cafwyd niferoedd mwy eu denu i Ysgol Gymunedol Cwmtawe ar yr adeg honno oherwydd roedd yn adeilad newydd, ac o ganlyniad, gostyngodd niferoedd disgyblion Ysgol Gyfyn Ystalyfera.

Mae'r awgrym fod cyflwr yr adeilad a'r cyfleusterau sydd ar gael yn ffactor bwysicach nag iaith yr addysg pan fydd rhieni yn dewis ysgol i'w plant yn ddadleuol. Dengys data nad yw ysgolion cyfrwng Saesneg newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot sydd wedi agor yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf

wedi cael unrhyw effaith sylweddol ar ysgolion Cymraeg cyfagos. Agorodd Ysgol Gynradd Awel-y-Môr yn 2013, ac ar waethaf y ffaith fod cryn dipyn yn fwy o ddisgyblion na'r disgwyl wedi mynychu, mae'n amlwg na wnaeth y disgyblion hyn symud o YGG Rhosafan, yr ysgol Gymraeg agosaf. Yn wir, mae niferoedd YGG Rhosafan wedi cynyddu'n raddol, o 336 yn 2021 i 381 yn 2020. Pe bai'n wir fod ysgolion cyfrwng Saesneg yn denu nifer sylweddol o ddisgyblion a fyddai fel arall wedi mynychu ysgol Gymraeg, dylai YGG Rhosafan fod wedi profi effeithiau sylweddol, oherwydd mae Ysgol Bae Baglan ac Ysgol Cwm Brombil wedi cael eu hagor yn nalgylch yr ysgol yn ystod blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, mae niferoedd yr ysgol wedi parhau i gynyddu'r flynyddol. Yn yr un modd, nid yw Ysgol Tyle'r Ynn ymhell o Ysgol newydd Carreg Hir, ac unwaith eto, mae niferoedd disgyblion wedi cynyddu yn hytrach na gostwng dros 10 mlynedd, o 197 yn 2010 i 230 yn 2020, ac nid yw'n ymddangos fod symudiad sylweddol o ddisgyblion o'r ysgol hon i Ysgol newydd Carreg Hir.

I'r gwrthwyneb, mae addysg Gymraeg eisoes yn cael ei ddarparu mewn adeilad ysgol ar gyfer yr 21ain ganrif yng Nghwmtawe yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur, a agorodd yn 2017. Mae'n ysgol Gymraeg 3-19 a sefydlwyd yn lle YGG Y Wern ac YG Ystalyfera, ar draws dau safle yn Ystalyfera a Phort Talbot. Nid yw cyfnod cynradd yr ysgol wedi profi twf sylweddol hyd yn hyn, er ei fod mewn adeilad pwrpasol newydd ar gyfer yr 21ain Ganrif. Mae hefyd yn wir fod data pontio yn dangos fod disgyblion yn dal i drosglwyddo o ysgolion cynradd Cymraeg i Ysgol Gymunedol Cwmtawe yn hytrach nag Ysgol Gymraeg Ystalyfera, er bod Ysgol Gymunedol Cwmtawe bellach dros 20 mlwydd oed. Byddai hyn yn awgrymu nad cyflwr yr adeiladau yw'r unig beth a gaiff ei ystyried gan rieni/gofalwyr wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa ysgol bydd plant yn ei mynychu.

Nid oes gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot ffynhonnell ddiddiwedd o gyllid, ac mae'n anochel y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd wrth nodi pa ysgolion o blith yr ystâd ysgolion (yn cynnwys pob ysgol cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg) sy'n fwyaf addas i'w cynnwys mewn cynlluniau adeiladau newydd.

Mae'n wir hefyd, lle bo hynny'n bosibl, y gwnaiff y Cyngor ddefnyddio unrhyw gyllid sydd ar gael er mwyn gwella ac ehangu ysgolion presennol, nid yn unig grantiau ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer prosiectau adeiladau newydd.

Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae cyllid sylweddol wedi'i sicrhau ar gyfer YGG Pontardawe, â'r nod o gynyddu capasiti'r ysgol a darparu amgylcheddau addysgu a dysgu gwell ar draws yr ysgol. Mae'r grant gwerth £1.62m sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru wedi darparu cyfleusterau gofal plant a meithrin wedi'u hailwampio a'u hehangu ar gyfer yr ysgol, ynghyd â dwy



ystafell dosbarth newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, mynedfa newydd, ystafell staff, ystafell gyfarfod a swyddfa a manau chwarae ychwanegol, ffensys a llwybrau, ynghyd ag ailwampio'r neuadd i raddau. Bydd yn darparu lle ar gyfer 60 disgybl ychwanegol, a bydd y cyfleusterau gofal plant ehangach yn caniatáu i'r ddarpariaeth bresennol gynyddu i 28 lle. Amcangyfrifir y bydd gwaith ychwanegol a nodwyd wrth i'r cynllun fynd rhagddo yn golygu fod cost derfynol y cynllun yn £2m fwy neu lai. Mae'r cynllun yn ceisio cryfhau addysg Gymraeg yn ardal Pontardawe, gan alluogi'r ysgol i ddatblygu ymhellach fel darpariaeth ffyniannus a chynaliadwy.

### – ***Effaith ar y gymuned***

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi cael ei gynnal at ddibenion darparu gwybodaeth am effaith y cynnig ar fynediad y gymuned leol at gyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd yn y tair ysgol. Cafodd ei baratoi yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi cael ei lunio gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau a thystiolaeth, yn cynnwys trafodaeth ag amrywiaeth o sefydliadau partner yng Nghwmtawe a'r ysgolion, ac mae'n darparu rhagor o wybodaeth sy'n galluogi'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gael dealltwriaeth fanylach o'r canlyniadau posibl i gymunedau yn sgil cau ysgol.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn cydnabod pwysigrwydd Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'rgraig a Llangiwig o ran darparu lleoliad i gynnal digwyddiadau yn yr ysgol, gweithgarwch allgyrsiol a defnydd cymunedol. Yn dilyn gwerthuso, dangoswyd fel rhan o'r cynnig hwn ei bod hi'n hanfodol sicrhau fod y rhyngweithio presennol rhwng y gymuned a'r ysgol yn cael ei gynnal, ei adleoli neu ei wella fel y bo'n briodol, heb unrhyw effeithiau croes na cholli amwynderau i'r gymuned ehangach. Argymhellir na ddylid colli'r defnydd cymunedol sydd wedi'i ddatblygu dros gyfnod estynedig.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn cynnwys asesiad cynhwysfawr o gyfleusterau a gwasanaethau Cwmtawe, ac er bod yr angen i ddeall a lliniaru effaith cynnig i gau ysgol ar gymuned yn ystyriaeth briodol, dylid sicrhau mai'r ffactor sy'n penderfynu cynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion yw sicrhau'r cynnig addysgol gorau i ddisgyblion.

Nid yw o reidrwydd yn wir y bydd cau ysgol yn arwain at ddirywiad awtomatig yn y gymuned ble mae wedi'i lleoli. Yn ôl adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig – Cau Ysgolion Bach yng Nghymru: Tystiolaeth Newydd (2007), dywed David Reynold a Meriel Jones y "Ceir llawer o enghreifftiau yng Nghymru o gymunedau cryf, bywiog a chysylltiedig sydd heb ysgol leol o gwbl. Heb os, y bobl, nid adeilad ysgol, sy'n creu cymuned".

Nid oes unrhyw reswm i awgrymu na fydd mynychu ysgol y tu allan i'r pentref yn golygu na fydd plant a phobl ifanc bellach yn 'perthyn' i'r gymuned ble maent yn byw. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn pwysleisio'r ffaith y ceir llawer o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol sydd ddim yn dibynnu ar yr ysgolion, felly nid yw'n amlwg pam na fyddai'r gweithgareddau hyn yn parhau, na pham na fyddai'r plant a'r bobl ifanc sy'n mwynhau cyfranogi ynddynt ar hyn o bryd yn dymuno gwneud hynny pe byddent yn mynychu ysgol yn rhywle arall. Mae ysgolion ar agor i ddisgyblion am 190 diwrnod bob blwyddyn. Y tu allan i'r diwrnod ysgol, hynny yw, cyn ac wedi'r ysgol, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol, bydd disgyblion yn yr ardaloedd ble maent yn byw a byddant ar gael i ddefnyddio cyfleusterau lleol.

Mae eisoes yn wir fod disgyblion ar draws Cwmtawe yn mynychu ysgolion sy'n wahanol i'w hysgol leol, ac nid yw'r disgyblion sy'n mynychu'r tair ysgol a enwir yn y cynnig hwn oll yn byw yn lleoliad yr ysgol maent yn ei mynychu. Mae disgyblion o'r ardal yn mynychu ysgolion ar draws Castell-nedd Port Talbot ac yn ardaloedd awdurdodau lleol eraill oherwydd amrywiaeth o resymau. Nid yw plant a phobl ifanc yn cymysgu yn gymdeithasol trwy gyfrwng eu haddysg yn unig, oherwydd bydd llawer yn mynychu grwpiau wedi'r ysgol neu'n rhan o ddigwyddiadau yn y gymuned ehangach. Nid oes rheswm pam na fyddai hyn yn parhau i fod yn rhan bwysig o'u bywydau os bydd y cynnig yn mynd rhagddo. Mewn cymunedau eraill ble mae ysgolion wedi cau a ble cafwyd pryderon y byddai disgyblion yn colli eu synnwyr o hunaniaeth, mae'n ymddangos nad yw hyn wedi digwydd a bod disgyblion yn parhau i gyfranogi mewn digwyddiadau yn y gymuned.

Yn ei adroddiad 'Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol' (Gorffennaf 2020), dywed Estyn fod teuluoedd, cymunedau a'u llesiant wrth wraidd yr ysgol yn achos yr ysgolion cymunedol mwyaf effeithiol. Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn mynd ati i ychwanegu at gryfderau'r ysgolion unigol ac yn darparu arweinyddiaeth sydd â gweledigaeth gymunedol gref ac ymdeimlad o gyfrifoldeb dinesig; a bod gan eu hysgol gyfraniad pwysig i'w wneud trwy weithio mewn partneriaeth agos â theuluoedd, rhieni a'r gymuned ehangach. Bydd yr ysgol yn mynd ati i ddarparu cyfleoedd i rieni gyfrannu'n llawn at fywyd yr ysgol ac at addysg ehangach eu plant.

### – **Cyfleusterau Hamdden**

Mae'r Cyngor yn meddu ar yr hawl rhydd-ddaliad i'r tir sy'n ofynnol ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig a'r pwll nofio, ac mae rhan o'r tir hwnnw yn cael ei brydlesu i Gymdeithas Chwaraeon Parc Ynysderw.

Mae'r Gymdeithas Chwaraeon wedi cytuno i fod yn rhan o gytundeb Opsiwn sy'n caniatáu iddi ildio'r tir sy'n ofynnol a chydysnio i'r gwaith gwella draenio i'r maes chwarae a gedwir sydd ddim yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol, os a phryd bydd y cynnig yn mynd rhagddo, a dylai'r trefniadau cyfreithiol ffurfiol ynghylch hynny gael eu cwblhau'n fuan.

Mae hawl y Cyngor i'r tir yn destun gweithred gysegro o blaid Cymdeithas Genedlaethol y Caeau Chwarae (fel Ymddiriedolwyr penodedig Sefydliad Brenin Siôr V) felly mae angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Fields in Trust ynghylch y cynnig. Mae Fields in Trust wedi dweud wrth y Cyngor eu bod yn fodlon ystyried rhyddhau'r tir sy'n ofynnol, ac mae trafodaethau cadarnhaol yn mynd rhagddynt i gytuno ar leoliad ac arwynebedd y tir a ddarperir yn lle'r tir a gaiff ei ildio yn unol â'i nodau a'i amcanion. Rhagwelir y bydd y Cyngor yn cyflwyno ei gais ffurfiol yn fuan, a gobeithir y ceir cymeradwyaeth ffurfiol cyn gynted ag y bo modd.

Mae cyllid i dalu am y gwaith draenio, os yn ofynnol, wedi cael ei nodi o fewn cyllideb yr ysgol newydd arfaethedig a'r pwll nofio, ynghyd â gwella'r maes chwarae i blant sydd wrth ochr y ganolfan hamdden, a all hefyd gael ei effeithio gan y gwaith arfaethedig, i sicrhau na chollir unrhyw amwynderau yn yr ardal. Mae'r ymddiriedolwyr yn cytuno'n llawn â'r cynnig.

Nid yw ymgynghori ynghylch y pwll newydd yn un o ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Fodd bynnag, mae'n rhan o gynnig cyffredinol i greu campws iechyd a llesiant cymunedol, felly ystyrid ei bod hi'n briodol cynnig gwybodaeth amdano yn y ddogfen ymgynghori. Bydd rhagor o fanylion am waith adeiladu'r pwll arfaethedig yn rhan o'r broses cynllunio os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y cyllid i ariannu'r pwll a'r ysgol wedi'i sicrhau fod rhan o grant cyfalaf ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif fel un cynllun. Os na chaiff y cynnig i adeiladu ysgol newydd ei gymeradwyo, ni fydd y cyllid i adeiladu pwll newydd ar gael ychwaith.

Adeiladwyd Pwll Nofio Pontardawe yn 1974. Fe wnaeth yr arolwg diweddaraf o'r cyflwr (Awst 2014) nodi fod y cyflwr yn rhesymol, ond roedd gwasanaethau'r adeilad craidd wedi mynd tu hwnt i'w hoes ddisgwyliedig argymelledig. Amcangyfrifir fod costau ôl-groniad cynnal a chadw'r pwll presennol yn £1,221,783.

Rhagwelir y bydd y pwll arfaethedig newydd yn cael ei gynnwys mewn adeilad newydd wrth ochr y ganolfan hamdden bresennol, sy'n golygu y bydd angen gwneud rhywfaint o waith i adlunio'r ganolfan hamdden. Fodd bynnag, ni fydd y cyfleusterau presennol, yn cynnwys y neuadd bowlio, yn cael eu heffeithio na'u colli yn sgil y cynnig hwn.

Bydd y pwll a'r ganolfan hamdden yn dal i gael eu rheoli ar wahân i'r ysgol ac ni fydd staff na llywodraethwyr yr ysgol yn gwneud penderfyniadau ynghylch sut rheolir y pwll. Fodd bynnag, disgwylir y byddai cynnydd yn y defnydd ohono gan ddisgyblion oherwydd agosrwydd y pwll a'r ganolfan hamdden, ac y bydd cyfleoedd ar gael yn ystod y diwrnod ysgol ac ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol. Ni ddisgwylir y byddai hyn yn cyfyngu ar y defnydd o'r pwll gan aelodau'r cyhoedd, a disgwylir y byddai'r cyfleusterau gwell a lleoli'r pwll wrth ochr y ganolfan hamdden yn gwella'r profiad i aelodau'r gymuned yn ogystal â disgyblion.

### – ***Gofal plant***

Cafwyd sylwadau ynghylch darpariaeth gofal plant, a mynegwyd pryderon na fydd rhieni yn gallu cael darpariaeth gofal amlapiol, oherwydd nid oes cyfleuster wedi'i gynllunio yn yr ysgol newydd arfaethedig. O ganlyniad i ystyried digonolrwydd presennol gofal plant o fewn ac o amgylch dalgylch yr ysgol gynradd newydd arfaethedig ym Mharc Ynysderw, gwrthodwyd yr angen am leoliad gofal plant yn yr ysgol o ganlyniad i'r ffaith fod darpariaeth gofal plant da eisoes ar gael yn yr ardal, ac mae nifer o leoliadau yn cynnig gofal diwrnodau llawn a sesiynol, a cheir tua 8 gofalwr plant sy'n gallu derbyn 65 o blant, oll o fewn pellter rhesymol i safle'r ysgol arfaethedig. Disgwylir y gallai darpariaeth gofal plant presennol addasu eu cynlluniau cludo plant yn rhwydd i alluogi plant o leoliad yr ysgol newydd i ddefnyddio/parhau i ddefnyddio eu darpariaeth. Teimlid hefyd, pe bai'r ysgol newydd arfaethedig yn cynnwys darpariaeth gofal plant ychwanegol, byddai'r tendr gofynnol am unrhyw wasanaethau gofal plant newydd o fewn ysgolion yn tarfu ar y gofal plant llwyddiannus a sefydledig sy'n bodoli yn yr ardal.

Cafwyd sylwadau sy'n datgan, pe bai ysgol gynradd Alltwn yn cau o ganlyniad i'r cynnig hwn, byddai'r ddarpariaeth gofal plant ar safle'r ysgol yn cau hefyd. Nid yw'n eglur pam fyddai hyn yn digwydd. Efallai y gellir cynnal y ddarpariaeth yn safle Ysgol Gynradd Alltwn, neu gallai'r ddarpariaeth symud i rywle arall os yn briodol.

### – ***Effaith ar Ddatblygiad y Gymraeg***

Mae Asesiad Effaith Iaith Gymraeg wedi'i gynnal gan ymgynghorydd annibynnol, ac er ei fod yn cydnabod fod y cynnig hwn yn ymwneud â sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg, efallai y bydd effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol ar ddatblygiad y Gymraeg yn yr ardal.

Yn gryno, mae ysgolion cynradd Alltwn, Godre'rgraig a Llangiwg yn addysgu Cymraeg fel ail iaith a dyna hefyd fydd yn digwydd yn yr ysgol newydd. Ar hyn o bryd, mae 25% o staff ar draws y tair ysgol yn siarad Cymraeg yn rhugl

neu'n weddol rugl. Trwy gyfuno'r tair ysgol, gellid gwella darpariaeth iaith Gymraeg oherwydd gallai'r effaith fod yn fwy yn sgil grŵp mwy o siaradwyr y Gymraeg gyda'i gilydd yn gallu cynorthwyo i ddatblygu sgiliau iaith disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae amcan Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ' Sicrhau bod darpariaeth ail iaith ar draws pob ysgol yn rhoi'r sgiliau a'r gallu i ddisgyblion ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus a pharhaus a bod y ddarpariaeth yn datblygu perthynas ystyrlon rhwng yr iaith a'r dysgwr', yn neilltuoel o berthnasol i'r cynnig hwn.

Dywed yr asesiad effaith 'Thema gyffredin yn sylwadau'r ymgynghoriad oedd y byddai ysgol newydd yn y cyfrwng Saesneg yn cael effaith negyddol ar ysgolion cyfrwng Cymru yn yr ardal. Fodd bynnag, mae data / tystiolaeth sydd gan y Cyngor yn dangos nad yw ysgolion cyfrwng newydd eu hadeiladu yn Castell-nedd Port Talbot, sydd wedi agor yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, wedi cael unrhyw effaith sylweddol ar ysgolion cyfrwng Cymru gerllaw sy'n awgrymu bod effaith isel os o gwbl ar ysgolion Cymraeg yn yr ardal gyda'r cynnig. '

O ganlyniad i ymgynghori ac ystyried data a thystiolaeth bresennol, argymhellir y camau lliniaru canlynol i'w hystyried a'u gweithredu pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo.

- Mae angen monitro tymor hir i ddarganfod unrhyw effaith ar faterion Cymraeg cymunedol ehangach; gellid cynllunio ar gyfer hyn fel rhan o'r camau gweithredu WESP wedi'u diweddarau (Gweler Adran 5.1)
- Monitro dewis rhieni o ysgol, hy Cymraeg / cyfrwng Saesneg

## – **Cyllid**

Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno i ymgynghori yn ei gylch ar sail pedair egwyddor y Cynllun Strategol Gwella Ysgolion, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori. Un o bedair egwyddor rhaglen y Cynllun Strategol Gwella Ysgolion yw'r angen am reolaeth ariannol effeithiol, a bydd y cynnig hwn yn arwain at arbedion effeithiolrwydd refeniw a gaiff eu hail-fuddsoddi yn y gyllideb addysg. O'r safbwynt hwn, mae'r cynnig yn cynorthwyo'r Cyngor i reoli ei gyllideb addysg yn effeithiol ac mae'n hybu dosbarthu cyllid yn decach ar draws ysgolion lleol.

Yn dilyn cyflwyno achos busnes manwl, mae grant cyfalaf Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif wedi cael ei gymeradwyo. Disgwylir i'r Cyngor ariannu 35% o'r gost, ac ariennir y gweddill gan Lywodraeth Cymru. Ariennir cyfraniad y Cyngor o arbedion effeithiolrwydd o fewn y gyllideb a ddirprwyir i ysgolion, a'r gostyngiad mewn costau rhedeg o ganlyniad i gau'r tair ysgol, fel y disgrifir

yn yr adroddiad. Bydd yr arbedion effeithiolrwydd hyn ar gostau yn caniatáu i'r Cyngor fenthyca yn ddarbodus i ariannu ei elfen 35% o'r bil cyfalaf.

Nid yw unrhyw gyfalaf a dderbynnir yn dilyn gwerthu safleoedd presennol yr ysgolion neu'r pwll wedi cael ei gynnwys yn y cynllun busnes a gymeradwywyd gan LIC ar gyfer y cynnig, er bod y Cyngor wedi penderfynu'n flaenorol i ail-fuddsoddi unrhyw arian a dderbynnir yn sgil gwerthu adeiladau ysgolion nad oes eu hangen at ddibenion gweithredol o ganlyniad i'w Raglen Strategol Gwella Ysgolion yn y gyllideb Addysg.

### – ***Y Broses Ymgynghori***

Mae'r ymgynghoriad ar y cynnig i sefydlu ysgol 3-11 cyfrwng Saesneg yn lle ysgolion cynradd Alltwn, Godre'rgraig a Llangiwig wedi dilyn y gweithdrefnau sy'n ofynnol o dan God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r math o weithgarwch trefniadaeth ysgolion y mae angen i'r Cyngor ymgynghori yn ei gylch a'r broses i'w dilyn wrth gynnal ymgynghoriad.

Mae Cod yn nodi hefyd pwy yw'r unigolion y mae'n rhaid i'r Cyngor ymgynghori â hwy a sut y bydd y ddogfen ymgynghori ar gael iddynt. O'r safbwynt hwn, mae cynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion wedi nodi cynulleidfa, ac mae'r gynulleidfa honno wedi cael ei thargedu'n briodol yn unol â'r Cod.

Trwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad, roedd y ddogfen ymgynghori a phapurau cysylltiedig ar gael ar wefan y Cyngor, ar dudalen gwe Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion y Cyngor.

Mae gwybodaeth am yr ymgynghoriad wedi ymddangos ar wefan y Cyngor, ac ar dudalen Facebook y Cyngor a'i gyfrif Twitter, ar ddechrau'r ymgynghoriad ac ar adegau trwy gydol yr ymgynghoriad, ac mae cyhoeddiadau'r cyfryngau lleol hefyd wedi adrodd am y cynnig ar adegau amrywiol yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Sicrhodd ysgolion cynradd Alltwn, Godre'rgraig a Llangiwig fod rhieni, staff a Llywodraethwyr yn cael eu hysbysu, gan roi'r ddolen ar-lein at y dogfennau iddynt a sicrhau fod copïau ar bapur ar gael os oedd angen hynny ac arddangos gwybodaeth ar eu gwefannau unigol.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth eglur am sut i ymateb, a chafodd y wybodaeth hon ei hailadrodd ar wefan a thudalennau Twitter a Facebook y Cyngor. Gallai'r ymgynghoreion ymateb trwy gyfrwng y porth 'dweud eich dweud' ar-lein, trwy e-bost neu trwy'r post. Roedd ffurflen ymateb ar gael i'w lawrlwytho pe bai angen hynny, ond nid oedd unrhyw reidrwydd i'w defnyddio. Yn ychwanegol, mae swyddogion wedi bod ar gael trwy gydol y cyfnod ymgynghori i ymateb i ymholiadau dros y ffôn neu trwy gyfrwng e-bost

ynghylch unrhyw agwedd o'r cynnig a'r ddogfen ymgynghori. Cafwyd ymatebion ar sawl ffurf, yn cynnwys e-byst, trwy'r post a thrwy'r porth.

Cafwyd sylwadau sy'n mynegi'r farn nad yw'r broses ymgynghori hon wedi darparu digon o wybodaeth i ymgynghoreion i'w galluogi i'w ystyried ac ymateb yn ddeallus, a'i bod yn broses anghyfreithlon sydd heb ddilyn polisiau a gweithdrefnau priodol, a heb gydymffurfio â rheolau tegwch. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi dilyn y gweithdrefnau a nodir gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae swyddogion wedi ymateb i bob cais am wybodaeth ychwanegol ac maent wedi ymateb i ymholiadau a dderbyniwyd.

Er gwaethaf Covid 19, cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac mae wedi cadw'n llawn at ofynion y Cod. Mewn rhai agweddau, mae'r broses ymgynghori hon wedi rhoi mwy o gyfleoedd i ymgynghoreion ymgysylltu oherwydd nid yw'r opsiwn i ymateb ar-lein wedi'i ddefnyddio'n flaenorol.

Cydnabyddir bod y cyfyngiadau cyfredol sydd ar waith wedi atal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ond mae hyn wedi'i liniaru yn sgil y ffaith fod swyddogion wedi bod ar gael i ateb ymholiadau a phryderon trwy e-bost neu dros y ffôn, gan alluogi ymgynghorwyr â phryderon unigol i gael atebion penodol. Mae'r Cod yn nodi nad oes unrhyw ofyniad i gynnal cyfarfodydd ymgynghori. Nid yw cyfarfodydd yn disodli ymatebion ysgrifenedig - lle cynhaliwyd cyfarfodydd yn y gorffennol, cafodd mynychwyr eu hannog serch hynny i ymateb yn ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, oherwydd nid yw'r nodiadau a gymerir mewn cyfarfodydd yn ymatebion ffurfiol.

Cafwyd sylwadau hefyd sy'n awgrymu mai dim ond yr opsiwn dewisol sydd wedi cael ei ystyried. Nid yw hyn yn wir; cyflwynwyd amrywiaeth o opsiynau yn y ddogfen ymgynghori, gan nodi rhesymau digonol i alluogi ymgynghoreion i ystyried ac ymateb yn ddeallus.

Cydnabyddir y dylid ymgymryd â'r broses ymgynghori pan fydd cynigion yn dal wrthi'n cael eu llunio. Dyna sy'n digwydd yn achos yr ymgynghoriad hwn, oherwydd bydd y cyngor yn ystyried yr ymatebion yn gydwobodol cyn gwneud penderfyniad terfynol. Oherwydd hynny, mae safbwyntiau ymgynghoreion yn gallu dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

Bydd cynigion eraill a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori yn cael eu hystyried a byddant yn helpu aelodau etholedig i wneud penderfyniad rhesymol a rhesymegol ynghylch sut ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig. Lle'r Aelodau etholedig fydd penderfynu ar y cynnig mwyaf priodol i'w ddatblygu, os bydd cynnig priodol o'r fath. Os caiff y cynnig ei wrthod, daw'r broses hon i ben, a bydd angen datblygu unrhyw gynnig newydd a'i gyflwyno i'w ystyried.

Yn unol â'r Cod, mae'r adroddiad hwn yn trafod isod ddewisiadau amgen a awgrymir neu a gefnogir mewn ymgynghoriad.

### – ***Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol***

Dywedwyd bod y cynnig hwn yn torri gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn benodol mewn perthynas ag effaith cau ysgolion ar y cymunedau lleol. Nid yw'n eglur pam yr ystyrir fod hynny'n wir. Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn llunio cynllun corfforaethol sy'n cynnwys amcanion llesiant. Mae'r tri amcan llesiant yn galluogi'r Cyngor i gynyddu ei gyfraniad at y saith nod llesiant y mae Gweinidogion Cymru wedi'u pennu ar gyfer Cymru gyfan yn eu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r cyntaf o'r tri amcan yn ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc - 'Gwella llesiant plant a phobl ifanc' - ac mae'r cynllun yn disgrifio'n fanwl sut mae'r amcan hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant. Barn swyddogion yw y gall y cynnig hwn alluogi'r Cyngor i gyflawni llawer o agweddau ar yr amcan hwn gan gynnwys trwy ddarparu profiadau addysgu a dysgu ar gyfer yr 21ain ganrif, cynorthwyo i weithredu dyletswyddau statudol newydd er budd disgyblion ag ADY a chynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion gyfranogi mewn gweithgareddau sy'n hybu iechyd a llesiant.

Mae'n wir y bydd ysgol newydd ar gyfer yr 21ain ganrif yn gwella profiadau addysgu a dysgu yn fawr, a gall hynny gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau disgyblion. Bydd y sgiliau a'r wybodaeth gynyddol yn darparu mwy o gyfleoedd bywyd i ddisgyblion, gan eu galluogi i ddod yn oedolion sy'n fwy llewyrchus, yn fwy cydnerth ac yn fwy cyfartal. Trwy ddarparu mynediad at gyfleusterau gwell a thrwy ehangu profiadau cymdeithasol a diwylliannol, mae'r cynnig yn cyfrannu at unigolion iachach a chymunedau mwy cydlynus.

### – ***Niferoedd disgyblion***

Mae pryderon wedi cael eu mynegi am niferoedd y disgyblion a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Adeiladir yr ysgol newydd ar gyfer 630 o ddisgyblion amser llawn a 140 o rai rhan amser. Mae'r niferoedd a ragwelir yn pennu maint yr adeilad a nifer yr ystafelloedd dosbarth a'r ystafelloedd ychwanegol y bydd angen eu cynnwys yn yr ysgol newydd arfaethedig. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr Achos Busnes a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i sicrhau'r cyllid i adeiladu'r ysgol newydd arfaethedig ac mae'r wybodaeth wedi cael ei harchwilio a'i chymeradwyo.

Mae'r ddogfen yn cynnwys niferoedd gwirioneddol y disgyblion yn y tair ysgol, rhagolwg pum mlynedd o niferoedd cyfun y disgyblion yn yr ysgolion a rhagfynegiad o'r niferoedd o ddisgyblion y mae maint adeilad yr ysgol newydd yn seiliedig arnynt.

Mae'r ffigurau yn y rhagolwg pum mlynedd yn y ddogfen ymgynghori yn deillio o gyfuniad o'r niferoedd cyfredol yng Nghyfnod Sylfaen y tair ysgol, a



chyfartaledd 3 blynedd o ddisgyblion blynyddoedd cynnar wedi'u lluosoi â nifer y blynyddoedd hyd at adeg agor yr ysgol. Nid cyfanswm cyfun nifer y disgyblion sydd yn y 3 ysgol ar hyn o bryd yw hyn; bydd llawer o'r disgyblion hyn wedi gadael i fynd i'r ysgol uwchradd erbyn i'r ysgol newydd arfaethedig agor.

Fodd bynnag, er bod y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r ffigur hwn yn dangos gostyngiad, mae gwybodaeth am niferoedd y disgyblion yn yr ardal a phrofiad o hynny yn dangos bod nifer y disgyblion yn cynyddu mewn gwirionedd. Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, gwelwyd cynnydd o 160 disgybl ychwanegol yn niferoedd disgyblion Cwmtawe, a disgwylir y gwnaiff y niferoedd hyn barhau i gynyddu wrth i'r boblogaeth barhau i dyfu. Mae hefyd yn wir bod nifer sylweddol o ddatblygiadau tai newydd ar y gweill ar gyfer yr ardal a gallai hynny o bosibl gynyddu niferoedd ymhellach.

Mae Tabl 3 yn nodi o ble mae niferoedd y disgyblion yn deillio, ym mis Ionawr 2021. **Nid** yw disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod hwn nac awdurdodau cyfagos wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau.

Tabl 3

	Niferoedd Disgyblion
Disgyblion yn byw yn nalgylchoedd Alltwen, Llangiwg neu Godre'rgraig yn mynychu ysgol cyfrwng Saesneg mewn rhan arall o Gastell-nedd Port Talbot	117
Disgyblion yn mynychu ysgolion cyfagos y tu allan i Gastell-nedd Port Talbot (Abertawe a Phowys)	107 (diweddarwyd Ionawr 2021)
Cyfanswm y disgyblion	224

Nid yw swyddogion yn awgrymu y bydd pob plentyn sy'n mynychu ysgol yn rhywle arall yn dychwelyd yn awtomatig i hawlio lle yn yr ysgol newydd arfaethedig, ac nid oes awgrym ychwaith y bydd pob cartref newydd yn gartref i blant o oedran cynradd a fydd yn dymuno mynychu'r ysgol newydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw ysgol newydd yn gallu derbyn y plant hynny sy'n byw yn y dalgylch ar adeg ei hagor ac at y dyfodol, oherwydd nid yw'n dderbyniol cynllunio i agor ysgol newydd na wnaiff ganiatáu i ddisgyblion lleol gael mynediad at eu addysg yn eu hysgol addas agosaf. Roedd cyfuno'r holl ffactorau uchod yn dangos na fyddai adeiladu ysgol i ddarparu ar gyfer y niferoedd presennol y tair ysgol a enwir yn ddigonol.

Mae hefyd yn bwysig ystyried profiadau o brosiectau ysgolion newydd y gorffennol. Mae data ynghylch disgyblion sydd wedi'u casglu o ysgolion eraill sydd wedi'u hadeiladu o'r newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn awgrymu y bydd niferoedd disgyblion yn cynyddu yn ystod y ddwy flynedd

gyntaf ar ôl agor, â chynnydd o 15% ar gyfartaledd, wrth i ddisgyblion sydd wedi gadael yr ysgolion gwreiddiol ddychwelyd i hawlio lle. Mewn ysgolion ble gwyddys yn barod fod y boblogaeth yn tyfu, gall y ganran honno fod yn uwch, er enghraifft, mae data'n dangos fod 252 o blant ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Tirmorfa ac Ysgol Gynradd Glan y Môr cyn agor Ysgol Gynradd Awel-y-Môr yn 2013. Erbyn 2015, roedd 331 disgybl ar gofrestr yr ysgol newydd, cynnydd o 79 disgybl.

Mae'r nifer amcangyfrifedig o ddisgyblion y byddai angen eu cynnwys yn adeilad newydd yr ysgol arfaethedig yn cyfuno'r holl ffactorau uchod i gyrraedd cyfanswm o 630 disgybl amser llawn.

Ni ddisgwylir i'r ysgol arfaethedig agor tan 2024, felly mae rhagweld niferoedd disgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn anoddach fyth, oherwydd nid yw plant a fydd yn 3 neu'n 4 yn 2024 wedi cael eu geni eto. Fodd bynnag, byddai derbyn 140 o ddisgyblion rhan amser i'r uned feithrin yn caniatáu i ddisgyblion blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn meithrin fynychu, gan sicrhau y gall pob plentyn gael o leiaf tri thymor o addysg feithrin cyn cychwyn yn yr ysgol yn amser llawn.

Mae amcangyfrif ychwanegol o 30 disgybl (ar sail uchafswm y disgyblion mewn dosbarth) wedi cael ei ychwanegu at y cyfrifiad i ganiatáu ar gyfer unrhyw beth anhysbys, yn cynnwys nifer uwch o ddisgyblion cyn-ysgol a lle ychwanegol, sy'n darparu'r ffigwr o 725 sydd yn y ddogfen.

Nid oes gan yr awdurdod hwn ddata ynghylch disgyblion sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot ond sy'n mynychu ysgolion mewn mannau eraill. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd (Ionawr 2021) yn dangos fod 15 o ddisgyblion ychwanegol yn mynychu Ysgol Bryntawe ac mae 55 arall yn mynychu Ysgol Golwg-y-Cwm, ac ni chawsant eu cynnwys yn y cyfrifiadau gwreiddiol. Os ychwanegir y disgyblion hyn at y cyfrifiadau, byddai'r niferoedd a ragwelir yn cynyddu i 795, a phe bai pob disgybl yn dymuno mynychu, byddai'r ysgol arfaethedig dros gapasiti.

Nid oes unrhyw fwriad i gynnwys unrhyw ysgol arall yn y cynllun arfaethedig, ar waethaf sylwadau a gafwyd yn nodi y bydd ysgolion eraill yn cael eu cynnwys yn ddiweddarach. Byddai unrhyw gynllun ad-drefnu ysgolion yn destun yr un gweithdrefnau yn union â'r cynnig hwn. Nid yw deddfwriaeth bresennol yn caniatáu ychwanegu ysgolion sydd heb eu henwi yn yr ymgynghoriad yn barod na thynnu ysgol o ymgynghoriad heb gychwyn proses statudol newydd.

### – ***Ysgol Gynradd Godre'rgraig, Safle Heol Graig***

Mae nifer o ymgynghoreion wedi cyfeirio at symud Ysgol Gynradd Godre'rgraig dros dro o Heol Graig, Godre'rgraig, i dir ger Ysgol Gymunedol Cwmtawe.

Cafwyd sylwadau sy'n datgan nad yw gwybodaeth fanwl am y rhesymau dros yr adleoli wedi cael eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori a bod 'manylion hanfodol' ar goll sy'n ofynnol er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

Mae sylwadau eraill yn awgrymu fod adleoli'r ysgol i'r safle dros dro wedi bod yn weithred fwriadol i hwyluso ei chau'n barhaol.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â pha un ai a ddylai Ysgol Gynradd Godre'rgraig barhau yn ei lleoliad dros dro, nac ynghylch pa un a ddylid gwneud gwaith adfer i ganiatáu dychwelyd, ond yn hytrach, mae'n ymwneud â chynnig i sefydlu ysgol gynradd 3-11 cyfrwng Saesneg newydd mewn adeilad newydd yn lle tair ysgol gynradd, ac mae Ysgol Gynradd Godre'rgraig yn un ohonynt. Pe bai yr ysgol yn parhau yn Heol Graig, Godre'rgraig, neu yn ei lleoliad dros dro ym Mharc Ynysderw, byddai angen cynnal yr ymgynghoriad presennol yn yr un modd a byddai'r un egwyddorion i gychwyn ymgynghoriad yn dal yn berthnasol.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn disgrifio'n glir y rhesymau dros y cynnig; mae'r buddion disgwyliadau y gellir eu sicrhau yn sgil sefydlu ysgol newydd, ynghyd â chreu campws iechyd a llesiant, yr un mor berthnasol i ddisgyblion Godre'rgraig ag y maent i ddisgyblion Alltwen a Llangiwig.

Ym marn swyddogion, y cynnig yr ymgynghorir yn ei gylch yw'r dewis gorau i bob ysgol, yn cynnwys disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Godre'rgraig ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, mae'n briodol dweud na all staff a disgyblion Ysgol Gynradd Godre'rgraig ddychwelyd i'w lleoliad gwreiddiol. Mae'r adroddiad diweddaraf ar yr ymchwiliad i domen rwbel chwarel uwchlaw'r ysgol wedi canfod yr erys y risg lefel ganolig, ac felly, bernir ei bod yn anniogel i ddisgyblion a staff ddychwelyd i'r safle ar hyn o bryd. Mae astudiaeth ddichonoldeb i ymchwilio i opsiynau dylunio ac amcangyfrifon cynhyrchu cyllideb ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig ag adfer wedi cael ei gomisiynu. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw gwaith lliniaru yn bosibl a bod staff a disgyblion yn gallu dychwelyd yn ddiogel i safle Heol Graig, erys yr achos y bydd angen gwaith sylweddol i fynd i'r afael â materion yr ôl-groniad cynnal a chadw ac ailfodelu i sicrhau darpariaeth ysgol ar gyfer yr 21ain ganrif at y dyfodol. Bydd ysgol bwrpasol newydd â chyfleusterau o'r radd flaenaf yn darparu gwell cyfleoedd ar gyfer addysgu a dysgu na safle Heol Graig, hyd yn oed os yw ailfodelu'r adeiladau yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy o fewn cyfyngiadau'r safle.

Os na all staff a disgyblion Godre'rgraig ddychwelyd yn ddiogel i safle Heol Graig, yna bydd yr ysgol yn parhau i weithredu o'r lleoliad dros dro ger Ysgol Gymunedol Cwmtawe nes bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn agor yn 2024

a bydd disgyblion yn symud yno, neu hyd nes y darganfyddir ateb gwahanol os gwrthodir y cynnig.

Byddai'r cynnig, pe cai ei gymeradwyo, yn dal i ddarparu addysg cyfrwng Saesneg i blant sy'n byw yn ardal Godre'rgraig ac Ystalyfera, ond mewn lleoliad oddi allan i'r ardal gyfagos, pellter o 3.6 milltir o safle Heol Graig yng Ngodre'rgraig. Bydd gan rieni sy'n dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol newydd arfaethedig ysgolion cyfrwng Saesneg o fewn pellter rhesymol i ddewis ohonynt, yng Nghastell-nedd Port Talbot yn Ysgol Gynradd Rhydyfro ac yn Ysgol Gynradd Rhos, a hefyd ar draws ffin y sir ym Mhowys. Mae data'n dangos bod dros 60 o ddisgyblion o Gastell-nedd Port Talbot eisoes yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg ym Mhowys, yn Ysgol Bro Tawe ac ymhellach i ffwrdd yn Ysgol Golwg y Cwm. Yn ychwanegol, gall rhieni ddewis o blith nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg, a'r agos yw YG Ystalyfera-Bro Dur yn Ystalyfera, ond hefyd YGG Pontardawe, YGG Cwmllynfell ac YGG Trebannws yng Nghastell-nedd Port Talbot ac YGG Dyffryn Y Glowyr ym Mhowys. Mae'n amlwg felly y ceir dewis eang o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg oll o fewn radiws 5 milltir o safle Heol Graig Ysgol Gynradd Godre'rgraig.

Mae ymgynghoreion wedi awgrymu na fyddai gan deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg unrhyw ddewis ond dewis ysgol cyfrwng Saesneg, sy'n golygu fod yn rhaid iddynt deithio y tu allan i'w hardal gyfagos i gael addysg gynradd. Fodd bynnag, mae nifer o ysgol cynradd Castell-nedd Port Talbot yn bodoli mewn ardaloedd ble nad yw teuluoedd yn siarad Cymraeg, ac yn ychwanegol, mewn mannau ble mae lefelau uchel o ddifreintedd yn amlwg. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu fod caffael y Gymraeg yn aflwyddiannus yn yr ardaloedd hyn, ac yn wir, mae data yn awgrymu fod rhywfaint o'r cynnydd mwyaf yn niferoedd disgyblion cynradd a'r cyfraddau pontio uchaf o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd i'w gweld yn y cymdogaethau hyn. Felly, nid yw'n eglur pam yr ystyrir fod hyn yn her, yn enwedig mewn ardal ble cydnabyddir fod y Gymraeg eisoes yn gryf.

### **- *Y safle arfaethedig – Parc Ynysderw***

Mae Parc Ynysderw wedi cael ei nodi fel safle dewisol adeilad yr ysgol newydd arfaethedig oherwydd nifer o resymau. Byddai ysgol gynradd mewn adeilad newydd yn y lleoliad hwn yn darparu cyfleoedd i gynnal gweithgareddau iechyd a llesiant gwell, â'r pwll arfaethedig newydd gerllaw a'r caeau chwarae niferus ar gael i'w defnyddio. Byddai lleoli'r ysgol gynradd yn agos at yr ysgol uwchradd hefyd yn cynorthwyo disgyblion i bontio o'r naill gyfnod i'r llall, byddai'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion cynradd elwa o adnoddau addysgu mwy arbenigol yr ysgol uwchradd (e.e. labordai gwyddoniaeth, ystafelloedd dylunio a thechnoleg, ystafelloedd technoleg bwyd) a byddai'n golygu fod gweithio ar draws cyfnodau yn haws i'w hwyluso.

Dyma'r unig safle yn yr ardal sy'n eiddo i'r Cyngor ac mae'n cynnig y buddion amrywiol hyn.

Mae angen oddeutu 19,884m<sup>2</sup> o dir ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig. Byddai angen tua 14,320m<sup>2</sup> o dir ychwaengol i sicrhau nifer ddigonol o feysydd chwarae, ond gellir diystyru hyn, oherwydd mae meysydd chwarae eisoes yn bodoli ym Mharc Ynysderw. Yn achos safle gwahanol heb ddarpariaeth o'r fath, byddai angen 34,204m<sup>2</sup> ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig.

Nid yw tir ar gyfer prosiect o'r maint hwn ar gael yn rhwydd yn ardal Cwmtawe, ac er bod rhywfaint o heriau o safbwynt adeiladu ar y safle, credir fod y rhain yn llai problemus nag yn achos unrhyw rai o'r safleoedd eraill sydd wedi'u hawgrymu. Mae swyddogion yn ymwybodol fod y tir hwn yn ardal â pherygl o lifogydd Parth B fel y nodir a **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd, Polisi a Chanllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru**. Mae hefyd yn wir y gall y tir ar y safle fod wedi'i halogi, fel sy'n wir yn achos rhai o'r safleoedd eraill sydd wedi'u hawgrymu gan yr ymgylgoreion, ac mae cyllid ar gyfer gwaith lliniaru posibl wedi cael ei nodi yn y gyllideb ar gyfer yr ysgol a'r pwll newydd arfaethedig. Caiff yr agweddau hyn eu hystyried ymhellach os bydd y cynnig yn mynd rhagddo a phan fydd y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno a gwaith archwilio tir manwl yn cael eu gwneud.

## ***Opsiynau Eraill***

Mae ymgynghoreion wedi ymateb gan gynnig awgrymiadau eraill, ac ymatebir iddynt isod.

### ***A. Cynnal pob un o'r ysgolion ar eu safle bresennol***

Cafwyd sylwadau sy'n awgrymu y byddai mynd i'r afael â materion yr ôl-groniad cynnal a chadw yn yr ysgolion a'r pwll nofio presennol yn well defnydd o arian cyhoeddus. Mae cyfanswm costau'r ôl-groniad cynnal a chadw a hygyrchedd yn achos y tair ysgol a'r pwll nofio yn £3.274m fwy neu lai.

Mae'n bwysig nodi fod costau'r ôl-groniad cynnal a chadw a hygyrchedd sy'n deillio o'r adroddiadau am gyflwr yn amcangyfrifon i adfer cyflwr yr adeilad, ac nid ydynt yn cynnwys costau gwella neu uwchraddio (mewnol nac allanol).

Byddai datblygu cynllun i wneud y math hwn o waith gwella gryn dipyn yn fwy costus na'r ffigurau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad am gyflwr. Nid yw'r amcangyfrifon o gostau'r ôl-groniad cynnal a chadw a hygyrchedd yn ystyried costau sy'n gysylltiedig â dylunio, goruchwylio, nac unrhyw ffioedd statudol, ac nid ydynt ychwaith yn darparu ar gyfer unrhyw waith ailwampio mewnol nac allanol i wella addasrwydd a chynlluniau'r safleoedd presennol. Nid yw'r adroddiad ynghylch cyflwr wedi ystyried anghenion y tu hwnt i 5-10 mlynedd (1-5 mlynedd yn bennaf yn unol ag adroddiadau ôl-groniad cynnal a chadw Llywodraeth Cymru); efallai y bydd gwaith arall, a fydd yn ofynnol wedi 10 mlynedd, yn gost sylweddol a fyddai'n ofynnol yn ystod unrhyw waith ailwampio yn y dyfodol ac mae hyn oddi allan i gwmpas yr adroddiad am y cyflwr presennol.

Ymhen amser, a gan ystyried yr uchod ac amgylchiadau anwadal y farchnad, mae costau yn debygol o gynyddu'n sylweddol, ac mewn gwirionedd, mae'n wir na fyddai'r costau a nodir yn yr adroddiadau am gyflwr yn ddigonol o gwbl i ddarparu cynlluniau ystyrlon wedi'u dylunio a'u tendro'n llawn ar gyfer pob un o'r adeiladau.

Yn ychwanegol, nid oes unrhyw gostau wedi'u nodi ar gyfer llogi adeiladau dros dro ar gyfer disgyblion yn ystod unrhyw gyfnodau o waith. Byddai angen i Ysgolion Cynradd Alltwen a Llangiwig adael eu hadeiladau am gyfnod estynedig (blwyddyn academaidd lawn efallai) a byddai angen i ysgol Godre'rgraig barhau i ddefnyddio'r adeiladau dros dro ym Mharc Ynysderw nes byddai'r gwaith wedi'i gwblhau.

Ceir oblygiadau ariannol a logistaidd sylweddol yn gysylltiedig â llogi adeiladau dros dro a chludo disgyblion, a bydd hynny oll yn arian 'coll' sy'n tanseilio unrhyw ddadl y byddai'n well gwario arian cyhoeddus trwy fynd i'r

afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw a'r gwaith hygyrchedd sydd wedi'i nodi ym mhob safle.

Hefyd, pe bai Ysgol Gynradd Godre'rgraig yn dychwelyd i safle Heol Graig, bydd angen ystyried gwaith adfer ychwanegol i liniaru'r risg o dirlithriadau, ac felly, sicrhau diogelwch staff a disgyblion. Amcangyfrifir ar hyn o bryd mai tua £4m fyddai cost y gwaith hwnnw.

O safbwynt y pwll nofio, byddai parhad y busnes yn cael ei niweidio tra byddai'r gwaith yn para, a byddai'r holl weithgareddau nofio yn cael eu hatal dros dro trwy gydol y cyfnod hwnnw.

Mae gan Lywodraeth Cymru broses achos busnes caeth y mae'n rhaid ei bodloni, ac mae hynny'n cynnwys archwilio achos strategol, economaidd ac ariannol unrhyw gynnig. Mae'n hynod o annhebygol y byddai Llywodraeth Cymru yn barod i roi cefnogaeth ariannol i'r dull o gyweirio ac atgyweirio'r ddarpariaeth bresennol sy'n cael ei awgrymu gan rai ymgylgoreion, sy'n dadlau y byddai'n well defnydd o arian cyhoeddus i wneud dim ond cyflawni gwaith yr ôl-groniad cynnal a chadw.

Mae hefyd yn wir, yn achos y tair ysgol bresennol, nad yw eu hadeiladau yn hollol addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21ain ganrif, ac maent yn ddiffygiol o ran llawer o'r safonau a'r gofynion o ran lle mewnol ac allanol a nodir ym Mwletin Adeiladu 99 y byddai rhywun yn disgwyl eu gweld mewn ysgol newydd sbon ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Byddai diffygion presennol pob adeilad yn parhau fel y maent, ac i bob pwrpas, byddai'r cyfle i greu cyfleusterau ar gyfer yr 21ain Ganrif yn cael ei gollu.

Ar waethaf buddsoddi dros £120m yn ystod Band A Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, mae gan y Cyngor stoc o adeiladau ysgolion sy'n heneiddio o hyd. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu y ceir costau ôl-groniad cynnal a chadw a hygyrchedd gwerth tua £76m ar draws y portffolio ysgolion (nid yw hon yn sefyllfa sy'n unigryw i Gastell-nedd Port Talbot ac adlewyrchir hyn ar draws llawer o Gynghorau Cymru).

Ar hyn o bryd, bydd y Cyngor yn gwario tua £1.2m o'i gyllid cyfalaf ei hun yn flynyddol i fynd i'r afael ag anghenion cynnal a chadw ysgolion, a cheir llawer o flaenoriaethau sy'n cystadlu bob blwyddyn. Gan ystyried y sefyllfa ariannol bresennol, nid yw'n realistig disgwyl dylifiad enfawr o gyllid neu ailddosbarthu cyllid yn y dyfodol agos.

Heb gyfraniad o 65% gan Lywodraeth Cymru, at gostau adeiladu ysgol newydd, byddai unrhyw gynnig arall yn ymwneud â chynnal y tair ysgol a'r pwll presennol yn eu lleoliadau presennol yn golygu y byddai'r Cyngor yn gorfod talu 100% o unrhyw gostau cyfalaf cysylltiedig.

Gan ystyried hyn, a hyd yn oed, fel yr awgrymwyd, pe bai'r Cyngor yn gwneud dim ond mynd i'r afael â chostau tybiannol gwerth £3.274m yr ôl-groniad cynnal a chadw yn ysgolion cynradd Alltwen, Godre'rgraig a Llangiwig a Phwll Nofio Pontardawe, byddai hynny ynddo'i hun yn ddigon i ddi-hysbyddu'r holl adnoddau cyfalaf sydd wedi'u clustnodi ar hyn o bryd i ariannu'r holl waith atgyweirio a'r ôl-groniad cynnal a chadw ar draws y portffolio ysgolion cyfan am dair blynedd bron iawn.

Byddai sefyllfa o'r fath yn annerbyniol ac yn golled i holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot, ac ni fyddai'n gyfeiriad y byddai'r Cyngor yn dymuno'i gymryd, sy'n golygu felly, os na fydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, bydd ôl-groniad cynnal a chadw pob un o'r adeiladau yn parhau, ac mae'n debyg y byddant yn cael eu datrys fesul cam pan fydd elfennau yn dirywio i'r fath raddau y bydd tarfu ar addysgu a dysgu yn anochel.

### ***B. Opsiynau Eraill ar gyfer Adeiladau Newydd ar gyfer Ysgolion Cynradd Alltwen, Llangiwig a Godre'rgraig***

Awgrymwyd y dylai pob un o'r ysgolion gael ei hadeilad newydd ei hun ar gyfer yr 21ain ganrif, ar y safle presennol neu'n agos iawn ati.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a chyfleusterau er mwyn sicrhau'r cyfleoedd addysg a hamdden gorau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion yn y gymuned ehangach.

Nid yw cynnal y tair ysgol yn eu safleoedd presennol yn cael ei ystyried yn ddefnydd gorau o adnoddau neu gyfleusterau, oherwydd byddai hynny'n arwain at aneffeithiolrwydd o ran costau ac ni fyddai buddion posibl adeilad newydd yn cael eu gwireddu. Yn yr un modd, ni fyddai adeiladau newydd ar un neu bob un o'r safleoedd presennol yn gyfystyr â'r defnydd mwyaf effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael. Byddai angen i achosion busnes ar wahân ar gyfer pob cynllun ddangos i Lywodraeth Cymru eu bod yn cynnig yr opsiwn gorau yn unigol o safbwynt strategol, economaidd ac ariannol cyn denu cymorth grant. Byddai angen i'r Cyngor hefyd ariannu ei gyfran o gost pob adeilad newydd heb sicrhau unrhyw arbedion effeithiolrwydd, ac mae'n amheus a fyddai'r dull hwn yn fforddiadwy i'r Cyngor. Ni fyddai tri adeilad newydd ar wahân yn sicrhau buddion ychwanegol y campws iechyd a llesiant na'r cynnydd mewn gwaith ar draws cyfnodau rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd, oherwydd ni fyddai cyd-leoli yn bosibl pe bai'r ysgolion yn parhau yn eu lleoliadau presennol.

Pe bai dim ond un o'r ysgolion yn bwrw ymlaen â chynnig i godi adeilad newydd, byddai'r disgyblion cyfrwng Saesneg yn y ddwy ysgol arall a fyddai wedi bod yn rhan o'r cynnig hwn fel arall yn colli'r cyfle i elwa o'r cynnig. Ni



fyddai buddion i'r gymuned yn sgil y campws iechyd a llesiant â'r pwll newydd wrth ymyl y ganolfan hamdden yn cael eu gwireddu ychwaith.

Byddai cynyddu niferoedd disgyblion ar un safle trwy gyfuno'r tair ysgol mewn cyfleuster pwrpasol newydd sbon yn ddefnydd llawer mwy effeithiol o arian cyhoeddus, a byddai'n darparu amgylchedd dysgu'r ar gyfer yr 21ain ganrif o'r radd flaenaf.

Mae pob opsiwn arall ynghylch adeilad newydd sydd wedi cael ei awgrymu yn ystod yr ymgynghoriad wedi cael ei ystyried ymhellach, ac adroddir ar hynny isod.

Er mwyn gwerthuso'r awgrymiadau hyn, mae ysgol gynradd newydd wedi'i hadeiladu yn unol â safonau adeiladu a lle Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif wedi cael ei hasesu a'i chostio yn achos pob un o'r ysgolion a enwir yn y cynnig hwn. Byddai adeilad o'r fath yn darparu'r ystafelloedd dosbarth a'r ystafelloedd arbenigol gofynnol a'r manau dan do ac awyr agored a'r lleoedd cysylltiedig y disgwylir eu cael mewn adeilad newydd ar gyfer ysgol gynradd.

Disgrifir canllawiau ynghylch manylebau adeiladau a manau allanol ysgolion prif ffrwd ym Mwletin Adeiladu 99. Mae elfennau allweddol ysgol gynradd yn cynnwys: manau addysgu (ystafelloedd dosbarth cyffredinol, manau i gynnal gwersi ymarferol ac ati); neuaddau (prif neuadd amlbwrpas a ddefnyddir ar gyfer Addysg Gorfforol, perfformiadau, bwyta ac ati); manau adnoddau dysgu (llyfrgell, cymorth dysgu, ystafell ar gyfer grwpiau bychan ag AAA, manau anogaeth ac ati); staff a gweinyddu (ystafell staff, derbynfa, gweinyddu a reprograffeg ac ati); bwyta (cegin cynhyrchu lawn; man bwyta mewn neuadd amlbwrpas ac ati); toiledau a gofal personol (toiledau ac ystafelloedd hylendid hygyrch ar gyfer disgyblion, staff ac ymwelwyr) a storfeydd (cotiau, deunyddiau, paratoi, offer, nwyddau traul ac ati). Mae'r asesiadau sy'n dilyn yn seiliedig ar Fwletin Adeiladu 99 â'r dyraniad lle ar gyfer ysgolion cynradd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru at ddibenion cyllid grantiau. Mae'r gofyniad sylfaenol o ran lle yn llai na beth fyddai Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn mynd ati i'w adeiladu fel arfer. Mae'r manylebau yn y Bwletin Adeiladu yn caniatáu ar gyfer anghenion ysgol am adeilad ac nid gofynion unrhyw wasanaethau eraill, e.e. Canolfan Cymorth Dysgu, dyheadau iechyd a llesiant ac ati.

Nid yw cyfrifiadau manwl gywir o nifer y disgyblion yn nalgylch pob ysgol a allai fynychu ysgol newydd yn y dyfodol wedi cael eu llunio ar hyn o bryd, ond er mwyn caniatáu ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn niferoedd disgyblion ar draws yr ardal gyfan, mae 50 disgybl ychwanegol wedi'u hychwanegu at gyfanswm pob ysgol.

Mae'r tabl isod yn nodi arwynebedd safle presennol yr ysgol, ynghyd â'r arwynebedd safle sy'n ofynnol i godi adeilad newydd ar gyfer ysgol yn unol â Bwletin Adeiladu 99 ar gyfer y nifer o ddisgyblion a ragwelir.

Tabl 4

YSGOLION PRESENNOL	ARWYNE BEDD Y SAFLE m2	BA99  M2	DISGYBLION  FTE (yn cynnwys M)
YSGOL GYNRADD ALLTWEN	11629	14,536	269
YSGOL GYNRADD GODRE'RGRAIG	4397	11,236	194
YSGOL GYNRADD LLANGIWG	3262 1345	12,556	224

### Ysgol Gynradd Alltwen

- **Adeilad Newydd ar y safle presennol**

Fel y gwelir uchod, mae'n amlwg y byddai angen safle arall ar gyfer Ysgol Gynradd Alltwen i godi adeilad newydd ar gyfer yr ysgol a fyddai'n bodloni safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr 21ain ganrif, oherwydd mae'r safle presennol yn rhy fach.

- **Adeilad newydd ar safle arall**

Nid oes tir addas yn Alltwen sy'n eiddo i'r Cyngor ar gyfer arwynebedd safle gofynnol o 14,536m<sup>2</sup>.

- **Cadw'r ysgol ac ychwanegu Canolfan Cymorth Dysgu**

Byddai ychwanegu Canolfan Cymorth Dysgu at yr ysgol bresennol yn golygu cynnwys adeilad arall ar y safle. Byddai unrhyw ychwanegiad yn anffafriol i'r Ganolfan Cymorth Dysgu a'r ysgol, oherwydd byddai'r lle a fyddai ar gael ar y safle yn cael ei gyfyngu ymhellach, ac ni fyddai swyddogion yn argymhell yr opsiwn hwn.

- **Uno ysgolion ar safle Alltwen**

Nid oes gan yr ysgol bresennol ddigon o le ar gael i dderbyn disgyblion o Ysgol Godre'rgraig nac Ysgol Gynradd Llangiwg, a phe bai niferoedd disgyblion ei dalgylch yn cynyddu fel y disgwylir, byddai'r lle sydd ganddi i ehangu yn gyfyngedig.

## **Ysgol Gynradd Godre'rgraig**

### **- Adeilad Newydd ar safle Heol Graig**

Fel y gwelir uchod yn nhabl 4, mae safle Heol Graig yn rhy fach o lawer ar gyfer ysgol mewn adeilad newydd sy'n cyflawni safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer disgyblion Godre'rgraig.

### **- Adeilad newydd ar safleoedd eraill (fel y nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad)**

#### **Tarenni**

Mae'r tir yn Nharenni a nodwyd gan yr ymgynghoreion oddi allan i ffiniau aneddiadau a nodir ei fod o fewn ardal ble ceir perygl sylweddol o lifogydd, ac fel y cyfryw, nid oes sicrwydd o gael caniatâd cynllunio i adeiladu ysgol, yn unol â'r hyn a nodir gan Lywodraeth Cymru yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd ym Mholisi a Chanllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, mae'r ardal wedi'i chynnwys yng nghofrestr yr Awdurdod Glo fel un â risg isel ar gyfer datblygu.

Oherwydd effeithiau diwydiant ar y safle datblygu arfaethedig, byddai angen cynnal yr ystod lawn o arolygon o gyflwr tir wedi'i halogi.

#### **Heol y GnoI**

Mae gan lawer o'r tir sydd ar gael ger Heol y GnoI raddiant serth, a nodir ei fod o fewn gorlifdir â pherygl sylweddol o lifogydd, ac fel y cyfryw, nid oes sicrwydd o gael caniatâd cynllunio i adeiladu ysgol fel y manylir yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd ym Mholisi a Chanllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, mae'r ardal wedi'i chynnwys yng nghofrestr yr Awdurdod Glo fel un â chymysgedd o risg isel a risg uchel ar gyfer datblygu. Mae'r tir hwn hefyd oddi allan i ffiniau aneddiadau.

Fodd bynnag, ar ôl cynnal archwiliadau ychwanegol o'r safle, gallai lle digonol fod ar gael i adeiladu ysgol newydd ar ran uchaf y tir ger y GnoI ar gyfer disgyblion Godre'rgraig.

Gwnaed yr awgrym hwn i sicrhau y cedwir ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yng ngogledd Cwmtawe a byddai'n golygu y gallai disgyblion Godre'rgraig ac Ystalyfera barhau yn eu hardal leol gyfagos. Gallai hefyd fynd i'r afael â'r anfanteision canfyddadwy ar gyfer disgyblion Godre'rgraig yn sgil gorfod teithio i'r safle arfaethedig ym Mharc Ynysderw.

Fodd bynnag, pe cai ysgol newydd ei hystyried ar gyfer disgyblion Godre'rgraig, mae'n aneglur beth fyddai'n cael ei awgrymu ar gyfer disgyblion Llangiwr ac Alltwn, na fyddai'n cael eu cynnwys yn y cynllun.

Os ystyrir cynnig arall, bydd yn rhaid derbyn y byddai'r buddion a nodwyd, sef creu campws iechyd a llesiant ar gyfer disgyblion y tair ysgol ym Mharc Ynysderw, yn cael eu colli. Byddai hyn hefyd yn golygu na fyddai cyllid ar gael i ariannu pwll nofio pwrpasol newydd mewn lleoliad arall. Yn ychwanegol, byddai costau'r ôl-groniad cynnal a chadw yn y safleoedd eraill yn parhau.

Byddai Llywodraeth Cymru yn dal i ddisgwyl i'r Cyngor ariannu 35% o gostau cyfalaf y gwaith adeiladu o dan gynnig o'r fath, ac oherwydd y ffaith na fyddai unrhyw arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn sgil y cynllun hwn, byddai'n rhaid talu'r gost ychwanegol o ran arall o gyllideb y Cyngor, ac yn yr hinsawdd bresennol, efallai na fyddai hynny'n fforddiadwy.

## **Ysgol Gynradd Llangiwig**

### **– Adeilad Newydd ar y safle presennol**

Fel y nodir yn Nhabl 4, ni fyddai unrhyw un o ddau safle presennol Ysgol Gynradd Llangiwig yn ddigon mawr i gynnwys ysgol mewn adeilad newydd yn cyd-fynd â safonau'r 21ain ganrif.

### **– Adeilad Newydd ar safle arall**

Nid yw swyddogion wedi gallu canfod unrhyw safle addas arall sy'n eiddo i'r Cyngor yn ardal Llangiwig, ac ni chyflwynwyd unrhyw awgrymiadau ynghylch safleoedd. Amlygir addasrwydd posibl Glanrhyd isod.

## **C. Safleoedd eraill ar gyfer y cynnig presennol**

### **- Glanrhyd – Ystâd Ddiwydiannol Glan yr Afon**

Mae safle Glanrhyd (Ystâd Ddiwydiannol Glan yr Afon) oddi allan i ffin bresennol aneddiadau ar hyn o bryd, a byddai angen gwaith arolygon ecolegol manwl a safle digolledu sy'n o leiaf ddwywaith y maint ble gellir lliniaru'r colledion cynefinoedd a'r effeithiau ar rywogaethau, oherwydd mae'n Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur. Mae'r tir hefyd mewn ardal ble ceir perygl sylweddol o lifogydd a chaiff ei hystyried yn ardal ble na ddylid ystyried datblygiadau sy'n hynod o agored i niwed (megis ysgol). Mae'r ardal hefyd wedi cael ei hystyried yn un ble ceir risg uchel ar gyfer datblygu gan yr Awdurdod Glo.

### **- Caeau Hamdden Pontardawe**

Er bod mynediad i'r ardal yn anodd, defnyddir y caeau hyn ar hyn o bryd gan Glwb Rygbi Pontardawe, Clwb Pêl-droed Pontardawe Athletic a Chlwb Criced Pontardawe, a chânt eu prydlesu i dimau chwaraeon lleol eraill ac mae'n fan gwyrdd agored lleol. Ar hyn o bryd, mae oddi allan i ffiniau aneddiadau, a chaiff ei ffinio gan Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur. Mae'r tir

hefyd mewn ardal ble ceir perygl sylweddol o lifogydd a chaiff ei hystyried yn ardal ble na ddylid ystyried datblygiadau sy'n hynod o agored i niwed.

## **D. Opsiynau Eraill**

Er mwyn cadw disgyblion Godre'rgraig yn ardal Godre'rgraig, awgrymwyd y dylid rhannu'r ysgol ac y dylai disgyblion sy'n byw yn agosach at Ystalyfera fynychu ysgolion yn yr ardal hon ac y dylai eraill fynychu ysgol gynradd Llangiwg neu un o ysgolion eraill Pontardawe.

Ni fyddai hyn yn sicrhau fod disgyblion Godre'rgraig yn cael darpariaeth addysg mewn ysgol ar gyfer yr 21ain Ganrif, a byddai'n golygu y byddai disgyblion a theuluoedd yr ysgol bresennol yn cael eu rhannu, ac oherwydd hynny, ni fyddai swyddogion yn argymhell yr opsiwn hwn. Pe bai'r cynnig yn llwyddo, bydd dewis rhieni yn golygu y gallai disgyblion sy'n dymuno symud i ysgol yn nes at Ystalyfera wneud hynny yn unol â'r Polisi Derbyniadau, ac ar yr un pryd, byddai ganddynt gyfle i fynd i'r ysgol newydd arfaethedig ac elwa o'i chyfleusterau gwell os byddai'n well ganddynt wneud hynny.

Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried codi dau adeilad newydd, un yn y gogledd ar gyfer plant yn byw yng Ngodre'rgraig ac Ystalyfera, ac un yn y de ar gyfer disgyblion o Alltwen a Llangiwg, efallai ar safle Parc Ynysderw, fel y gallai pwll nofio newydd gael ei gynnwys hefyd.

Byddai cost codi dau adeilad newydd mewn lleoliadau ar wahân ond gweddol agos yng Nghwmtawe, y ddau ar gyfer disgyblion o'r un ystod oedran ac ar gyfer yr un cyfrwng iaith, yn anodd ei chyfiawnhau mewn achos busnes, oherwydd byddai costau adeiladu a chostau refeniw rheolaidd yn cynyddu pe bai hyn yn digwydd. Mae'n wir hefyd y byddai'r cynllun hwn, o gymharu â'r cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad, yn lleihau cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd y byddid yn eu sicrhau, felly mae'n amheus a fyddai'r awgrym hwn yn fforddiadwy i'r Cyngor.

Nid yw swyddogion yn argymhell yr opsiwn hwn, ac mae'n dal yn wir mai'r cynnig sydd wedi bod yn destun yr ymgynghoriad sy'n cynnig y defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus ac a fyddai'n sicrhau'r cyfleusterau addysgol a hamdden gorau.

## **Casgliad**

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn, mae'r swyddogion o'r farn y bydd cau ysgolion cynradd Alltwen, Godre'rgraig a Llangiwg a sefydlu ysgol gymunedol newydd ar gyfer 630 o ddisgyblion a 140 o ddisgyblion meithrin mewn adeilad yr 21ain Ganrif yn darparu'r buddion gorau i ddisgyblion, staff a'r gymuned ehangach yn ei chyfanrwydd.

Mae cynnwys canolfan cymorth dysgu ar gyfer disgyblion oedran cynradd ag ASA yn rhoi cyfle i ddarparu cyfleuster pwrpasol i ddisgyblion â'r nod o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i ddisgyblion.

Yn ogystal, bydd sefydlu'r ysgol ar y safle a nodwyd ym Mharc Ynysderw a chreu cyfleusterau dysgu, iechyd a lles gwell a chynnwys y ganolfan hamdden, pwll nofio newydd ac Ysgol Gyfun Gymunedol Cwmtawe, yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu a gwella addysg gynradd yn yr ardal.

## ***Y cam nesaf***

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad hwn, os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'i gynlluniau yr ymgynghorwyd yn eu cylch, y cam nesaf fydd cymeradwyo cyhoeddi cynnig, gan ganiatáu 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau.

Hysbysir ymgynghoreion na fydd sylwadau anffafriol a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau. Bydd angen i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu wneud hynny yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Bydd angen i sylwadau a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori hon gael eu hailgyflwyno'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol cyn y gellir eu hystyried yn wrthwynebiadau.

## Atodiad A.

<b>Rhestr o Ymgynghoreion</b>	
Ysgolion cynradd Alltwn, Godre'rgraig a Llangiwig: Disgyblion Rhieni / gofalwyr Staff Corff Llywodraethu Cymuned ehangach yr ysgol	NAASH (Fforwm Ysgolion Uwchradd)
	LLAN (Fforwm Ysgolion Cynradd)
	Awdurdodau ffiniol – Abertawe/Pen-y-bont ar Ogwr/Sir Gaerfyrddin/Powys/RhCT
Holl ysgolion eraill CNPT	Cyngor Tref Pontardawe Cyngor Cymuned Cilybebyll Cyngor Cymuned Cwmllynfell Cyngor Cymuned Gwaun Cae Gurwen Cyngor Cymuned Ystalyfera
Aelodau etholedig NPT	Is-adran Rheolaeth Ysgolion LIC
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol - Esgobaeth Menevia, Abertawe - Esgobaeth Llandaf, Bro Morgannwg	AS (dros Gastell-nedd) – Christina Rees
	AC (dros Gastell-nedd) – Jeremy Miles
Undebau llafur	Aelodau Cynulliad Rhanbarthol
Estyn	Aelodau Lleol
Consortiwm Addysg Rhanbarthol (ERW)	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (gan gynnwys Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant)
Uned Trafnidiaeth Integredig CBSCPT	Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Partneriaid AAA
Swyddogion CBSCPT	

Yn ogystal â'r ymgynghorwyr statudol, anfonwyd rhybudd o'r ymgynghoriad at y canlynol:  
Pob lleoliad gofal plant a gwarchodwyr plant cofrestredig yn yr ardal  
Grŵp Cymunedol Tegwch  
Comisiynydd Cymraeg

## Atodiad B

### Crynodeb o Ymgynghoriadau â Disgyblion - Ysgol Gynradd Alltwn, Ysgol Gynradd Llangiwig ac Ysgol Gynradd Godre'r-graig

Cyfarfu Cyngor Castell-nedd Port Talbot â disgyblion o Ysgol Gynradd Alltwn (20) ar 2 Rhagfyr 2020, disgyblion o Ysgol Gynradd Llangiwig (24) ar 3 Rhagfyr 2020 a disgyblion o Ysgol Gynradd Godre'r-graig (13) ar 4 Rhagfyr 2020. Roedd detholiad o ddisgyblion o bob grŵp blwyddyn o bob ysgol, ynghyd â'u pennaeth, yn bresennol ym mhob cyfarfod pan ymgynghorwyd â'r disgyblion, er mwyn sicrhau bod barn y disgyblion yn cael ei hystyried a bod gan bob disgybl gyfle cyfartal i siarad.

Dylid cydnabod bod nodiadau'r cyfarfodydd yn cyfleu dealltwriaeth y swyddogion o'r farn a fynegwyd ac felly efallai na fydd yn cyfleu'n llawn y sylwadau unigol a wnaed a'r ymholiadau a gafwyd. Yn hyn o beth, ac i gefnogi'r broses ymgynghori, atgoffwyd disgyblion ym mhob cyfarfod i gyflwyno'u sylwadau'n ysgrifenedig pe dymument.

Dyma grynoded o'r wybodaeth a roddwyd gan y disgyblion o bob un o'r tair ysgol gynradd.

Ymgynghorwyd â chyfanswm o 57 o ddisgyblion.

Rhoddyd crynodeb o'r cynnig i bob grŵp fel yr amlinellwyd yn y ffurflen ymgynghori i ddisgyblion, a gofynnwyd iddynt roi sylw amdano.

- **Hoffech chi wybod unrhyw beth arall am y cynnig?**
- **Ydych chi'n edrych ymlaen at y cynnig neu oes gennych chi bryderon amdano?**
- **Beth arall yr hoffech chi ei ddweud?**

Roedd gan y plant ym mhob grŵp bryderon a chwestiynau tebyg. Ceir crynodeb o'r farn gyfun a rhai ymatebion isod.

#### **Y Broses Ymgynghori**

Esboniwyd y broses i'r plant ac roeddent yn falch o glywed y byddai eu hymatebion a'u cwestiynau'n rhan o'r adroddiad ymgynghori. Esboniwyd bod barn pawb yn bwysig ond na fyddai dweud 'na' i'r cynnig yn golygu na fyddai'n digwydd - byddai angen rhoi rhesymau da i awgrymu y byddai'n syniad gwael a byddai'r rhesymau hyn yn cael eu nodi a'u trosglwyddo. Roeddent yn awyddus i swyddogion fod yn ymwybodol o'u barn.

#### **Sut byddai bywyd yn yr ysgol newydd?**

Nododd rhai plant eu bod yn edrych ymlaen at gael cyfleusterau a gweithgareddau newydd i gymryd rhan ynddynt, ond roedd eraill yn poeni y byddai'r adeilad yn rhy fawr, yn enwedig yn y meithrin, ac y byddent yn mynd ar goll neu y byddai'r ysgol yn rhy llawn, yn rhy swllyd ac yn rhy brysur. Teimlai rhai plant y byddai'n anos i athrawon ei threfnu gan y byddai'n fwy na'u hysgol bresennol ac y byddai'n anodd gwneud ffrindiau newydd, neu byddent yn cael eu cymysgu â disgyblion nad ydynt yn eu hadnabod, neu mewn dosbarthiadau mawr. Dywedodd ambell ddisgybl y byddai'n gyfle i wneud ffrindiau newydd ac



y byddai iard chwarae newydd â digon o le yno. Dywedodd rhai plant eu bod am wybod sut byddai'r diwrnod ysgol yn cael ei drefnu ar gyfer ysgol mor fawr, e.e. amserau dechrau a gorffen, clwb brecwast, amser cinio, amserau egwyl, etc. Roeddent hefyd yn poeni y byddai pobl yn eu bwlio yn yr ysgol ac y byddai gan rai plant fwy o gyfle i fod yn gas ac na fyddai unrhyw un yn sylwi arnynt. Roedd rhai disgyblion yn pryderu na fyddent yn cael cyfle i gynrychioli'u hysgol gan y byddai llawer o blant yn cystadlu i fod ar gyngor yr ysgol, y pwyllgor eco, y tîm pêl-droed, etc., neu na fyddant yn gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau neu sioeau cerddorol gan y byddai gormod o blant. Roeddent hefyd yn awyddus i sicrhau y byddai ganddynt neuadd digon o faint ar gyfer cyngherddau ac amser cinio.

*Dywedwyd wrthynt y byddai'n fwy na'u hysgol bresennol ond ni fyddai mor fawr fel na fyddent yn gallu dod o hyd i bethau ar ôl cyfarwyddo â hi, ac y byddai wedi'i dylunio'n dda fel bod digon o le iddynt. Nodwyd hefyd y byddai'r ysgol yn cael ei hadeiladu i safonau LIC o ran maint ystafelloedd, neuaddau a thoiledau a'i fod yn debygol y byddent yn treulio peth amser yn yr adeilad cyn i'r ysgol agor, felly na fyddai'n hollol anghyfarwydd iddynt. Byddai'r ysgol newydd yn amgylchedd diogel iddynt a bydd eu lles a'u diogelwch yn flaenoriaeth i'r ysgol. Byddai polisiau a gweithdrefnau ar waith yn yr ysgol newydd i sicrhau bod y plant yn teimlo'n ddiogel. Byddai'r pennaeth a'r staff newydd yn trefnu maint y dosbarthiadau ac yn cynllunio gweithgareddau fel maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Disgwylir i waith gael ei wneud yn y tair ysgol, os caiff y cais ei gymeradwyo, fel y bydd gan y plant ddigon o amser i ddod i adnabod ei gilydd cyn i'r ysgol newydd agor.*

*Efallai byddai cyfleoedd newydd ar eu cyfer o ran clybiau allgyrsiol, gan ddibynnu ar ddi-ddordebau a sgiliau'r staff. Byddent hefyd yn gallu rhoi mewnbyn ar gyfer y cyfleusterau wrth i'r gwaith fynd rhagddo.*

*Byddai gan y cogyddion gegin newydd felly mae'n annhebygol y byddai unrhyw wahaniaeth rhwng safon eu bwyd amser brecwast a chinio yn eu hysgol bresennol a'u hysgol newydd.*

### **Sut olwg fydd ar yr ardal allanol a sut byddwn ni'n ei defnyddio?**

Roedd llawer o'r plant yn awyddus i ofyn beth fyddai'n cael ei gynnwys yn yr ardaloedd allanol, yr ardaloedd chwarae a'r ierdydd. Roeddent yn awyddus i gael 'gardd ddysgu' a 'Trim Trail' fel rhan o unrhyw ysgol newydd am ei fod yn rhan bwysig o'u hysgol. Roeddent hefyd wedi gofyn am y caeau chwarae a'r ardaloedd natur ac a fyddai pobl yn gallu mynd â'u cŵn am dro a defnyddio'r caeau ac a fyddai'r parc yno o hyd?

*Dywedwyd wrth y disgyblion fod LIC yn gosod y safonau gofynnol ar gyfer ysgolion pan gânt eu hadeiladu a sicrhawyd y plant y byddai llawer o gyfleoedd newydd iddynt i ddefnyddio'r ardaloedd allanol. Gallai fod Ardaloedd Gemau Amldefnydd, ierdydd chwarae fesul cyfnod allweddol ac 'ardal wyllt' yn yr ysgol newydd arfaethedig, a byddai'r ganolfan hamdden a phwll nofio newydd drws nesaf i greu rhagor o le. Bwriedir adeiladu'r ardal chwarae gyhoeddus a'r parc newydd fel rhan o gyfaddailad newydd Parc Ynysderw.*

### **Beth fydd yn digwydd i'r holl staff?**

Er bod rhai plant wedi croesawu'r posibilrwydd o gael athrawon newydd yn gyffredinol, roeddent hefyd yn teimlo'i fod yn bwysig bod eu hathrawon, eu

cynorthwyr dysgu a'u cogyddion presennol yn symud i'r ysgol newydd a'u bod yn cadw'u swyddi. Roedd yn bwysig iddynt nad yw aelodau staff newydd yn rhy llym a bod oedolion sy'n eu hadnabod yn yr ysgol newydd pan fydd yn agor. Roedd yr holl blant yn dymuno gweld eu pennaeth presennol yn bennaeth ar yr ysgol newydd.

*Roedd disgyblion yn hapus i glywed y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau y gallai aelodau staff presennol drosglwyddo i'r ysgol newydd os bydd yn cynnig yn symud yn ei flaen ac y byddai'r cyngor yn siarad â phob aelod o staff i ofyn beth yr hoffent ei wneud a sut gallai'r cyngor eu helpu.*

### **Beth fydd yn digwydd i'r hen adeiladau?**

Roedd y plant am wybod beth fyddai'n digwydd i hen adeiladau'r ysgol, gan awgrymu na ddylid eu dymchwel ac y dylai pobl y pentref eu defnyddio o hyd. Dywedodd llawer o ddisgyblion eu bod yn hoffi ysgol fach a'r diogelwch a'r cysur maent yn ei deimlo ynddi. Dywedodd llawer ohonynt nad yw eu rhieni na'u mam-guod a'u tad-cuod am gael ysgol newydd oherwydd hanes yr ysgolion pentref. *Esboniwyd nad oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer eu hysgolion presennol ac y byddai'r aelodau'r gymuned yn cael eu holi am yr hyn yr hoffent iddo ddigwydd i'r adeiladau cyn y byddai unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud.*

### **Sut bydd hyn yn cael effaith ar lle rydyn ni'n byw?**

Dywedodd yr holl blant eu bod yn hoffi mynd i'w hysgol ac nad oeddent yn gwybod sut byddent yn teimlo pe byddai'r ysgol yn cau, ac roeddent yn gobeithio y byddai eu brodyr a chwiorydd iau yn ei mynychu. Soniwyd hefyd eu bod yn teimlo y gallai cau eu hysgol gael effaith ar y gymuned, gan y bydd llai o bobl yn mynd i'r siop leol a llai o bobl yn teimlo fel rhan o'u pentref - dywedodd un disgybl y byddai cymuned newydd yn dechrau yn yr ysgol newydd. Roeddent hefyd wedi gofyn ynghylch clybiau ar ôl ysgol a'r hyn a fyddai'n digwydd os byddai gormod o blant am gymryd rhan ynddynt a bod lleoedd yn gyfyngedig, a mynegwyd pryderon ynghylch mynd adref ar ôl mynychu clybiau ar ôl ysgol. Gofynnodd nifer o ddisgyblion am y caeau chwarae a'r hyn a fyddai'n digwydd i'r rhain oherwydd eu bod yn chwarae pêl-droed a rygbi yno ac mae Cwmtawe'n eu defnyddio ar gyfer gwersi chwaraeon ac addysg gorfforol.

*Dywedwyd wrth y plant y byddai eu cymunedau yno o hyd ac y byddai'n bwysig i athrawon fyfyrion ar dreftadaeth a diwylliant cyfoethog pob pentref pan fyddant yn addysgu yn yr ysgol arfaethedig. Byddai unrhyw sesiynau allgyrsiol yn cael eu trefnu gan yr ysgol a'u cynnig i bob disgybl sydd â diddordeb. Byddai'r caeau chwarae'n cael eu haildylunio fel na fyddai unrhyw gaeau'n cael eu colli ym Mharc Ynysderw ar gyfer Cwmtawe neu'r clybiau chwaraeon lleol.*

### **Bydd y ffyrdd yn brysur, felly sut byddwn ni'n mynd i'r ysgol yn ddiogel?**

Roedd ffyrdd prysur a thraffig yn destun pryder ar gyfer pob grŵp ym mhob ysgol. Dywedodd rhai o'r disgyblion y byddai'r safle newydd yn nes at eu cartrefi, ond meddai rhai y byddai'r sefyllfa'n anos iddynt ac y byddai'n anodd iddynt gerdded yno oherwydd byddai'r ysgol newydd ymhellach o lawer i ffwrdd na'u hysgol bresennol, felly byddai angen iddynt ddod yn y car. Roedd y plant yn derbyn mai dyna fyddai'r achos ni waeth ble roedd lleoliad yr ysgol. Roeddent yn poeni ynghylch faint o draffig fyddai ger Ysgol Cwmtawe a'r ffordd ger y siopau a sut byddai plant bach fel disgyblion y meithrin yn mynd i'r ysgol. Roedd

rhai plant hefyd yn bryderus ynghylch faint o draffig fyddai yno a dieithriaid yn defnyddio'r ganolfan hamdden yn agos at eu hysgol.

*Esboniwyd na fyddai bws yn eu cludo i'r ysgol oni bai fod angen i unrhyw blant deithio fwy na dwy filltir i'r ysgol newydd, er y byddai hyn yn dod yn fwy eglur wrth i'r cynnig symud yn ei flaen. Dywedwyd wrthynt hefyd y byddai'r llwybr cerdded neu feicio'n cael ei archwilio i sicrhau ei fod yn ddiogel ac y byddai pwyslais ar sicrhau bod pob llwybr yn ddiogel i ddisgyblion. Esboniwyd i'r disgyblion y byddai'n rhaid llunio cynllun traffig a fyddai'n cynnwys defnyddwyr y ganolfan hamdden, manau gollwng i rieni a lleoedd parcio diogel hefyd i sicrhau eu diogelwch.*

## Atodiad C

### **Ymateb Estyn i gynneg gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 i ddisodli Ysgol Gynradd Allt-wen, Ysgol Gynradd Godre'r Graig ac Ysgol Gynradd Llan-giwg, a fydd i gyd yn cau**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynneg ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortiwm Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynneg.

#### **Cyflwyniad**

Mae'r cynneg ymgynghorol hwn gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot.

Y cynneg yw:

- Sefydlu adeilad newydd, ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 yr 21ain ganrif i ddisodli Ysgol Gynradd Allt-wen, Ysgol Gynradd Godre'r Graig ac Ysgol Gynradd Llan-giwg, a fydd i gyd yn cau ar 31 Awst 2024.
- Cynnwys Canolfan Cymorth Dysgu (CCD) newydd ar gyfer hyd at 16 o ddisgyblion oedran cynradd sydd ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA) sydd â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (SEN).
- Adeiladu pwll 25m newydd a phwll addysgu ar y safle i ddisodli pwll nofio presennol Pontardawe.
- Y bydd yr ysgol gyfunol wedi'i hadeiladu o'r newydd, y ddarpariaeth ASA arbenigol a'r cyfleusterau hamdden, yn ffurfio rhan o gampws cymuned ddysgu, iechyd a lles ar safle Parc Ynysderw.

•

#### **Crynodeb/ Casgliad**

Mae Estyn o'r farn fod y cynneg hwn yn debygol o gynnal y ddarpariaeth bresennol ar gyfer addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal, o leiaf.

#### **Disgrifiad a manteision**

Mae'r cynigion yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth i ddisgyblion oedran cynradd yn yr ardal. Yn ôl pob tebyg, bydd cyfleusterau newydd yn cynnig buddion i les disgyblion ac yn gwella cyflwyno'r cwricwlwm. Dylai ddarpariaeth ychwanegol trwy ganolfan cymorth dysgu fod o fudd i ddisgyblion oedran cynradd ag ASA. Mae pwll nofio newydd yn debygol o wella'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles yn yr ardal.

Mae'r cynigiwr wedi amlinellu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am y modd y bydd campws cymunedol dysgu, iechyd a lles yn cael ei ddatblygu ar un safle ym Mharc Ynysderw. Mae hyn yn cynnwys ysgol uwchradd, canolfan hamdden a'r campws cynradd newydd y bwriedir ei adeiladu gyda chanolfan cymorth dysgu. Esbonnir yr angen am adeilad newydd yn glir yn y cynnig ar gyfer disodli adeiladau ysgol sy'n heneiddio, y tybir bod un o'r safleoedd yn anniogel. Hefyd, gall arwain at fanteision cynyddol i staff a disgyblion, yn ogystal â galluogi defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

Mae manteision disgwylidig y cynnig, o gymharu â'r sefyllfa bresennol, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, yn cynnwys y canlynol:

- cyfleusterau gwell ar gyfer addysg, iechyd a lles
- defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau, gan arwain at arbedion refeniw ar gyfer ailfuddsoddi yn y gyllideb addysg
- galluogi cyflwyno'r cwricwlwm cyfan yn fwy effeithiol
- atal yr angen am ddsbarthiadau oedran cymysg mewn mwy na 2 grŵp blwyddyn
- darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio â chyfoedion, a datblygu medrau cymdeithasol
- lleihau baich gwaith athrawon trwy rannu cyfrifoldebau'n ehangach
- darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol
- darparu cymorth mwy targedig ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol trwy arbenigedd ehangach a niferoedd mwy o staff cymorth
- caniatáu ar gyfer datblygiad staff gwell, mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a chyfleoedd gyrfa trwy brofiad ehangach ac opsiynau gwell ar gyfer datblygiad proffesiynol parhausl
- galluogi defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau, yn cynnwys arbed arian trwy arbedion maint
- rhoi mwy o hyblygrwydd i'r pennaeth a'r corff llywodraethol wrth drefnu dosbarthiadau a lleoli staff

Dyma'r meysydd risg posibl a nodwyd yn glir:

- ymwrthedd i newid, gan arwain at ddiffyg cymorth gan ddisgyblion, rhieni a staff
- ni chynhelir safonau addysgol
- cymorth llai effeithiol ar gyfer lles disgyblion mewn ysgol fwy, ac mewn lleoliad gwahanol
- amser teithio cynyddol o'r cartref i'r ysgol i rai disgyblion
- gorbryder staff am sicrwydd swydd a threfniadau rheoli newydd
- colli hunaniaeth ysgol o gau sefydliadau sy'n bodoli eisoes
- ni chaiff y rhagfynegiadau o ran niferoedd y disgyblion eu gwireddu
- mae'r dyraniad cyllideb yn annigonol i ddiwallu anghenion
- ni chaiff cyfle cyllid cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif ei wireddu

- ni chaiff y Gymraeg ei datblygu ymhellach
- gwahaniaethu yn erbyn nodweddion gwarchoddedig
- colli cyfleusterau cymunedol
- llywodraethu a chyfrifoldebau staff cynyddol

Mae'n ymddangos y bydd y manteision a amlinellwyd yn flaenorol yn lliniaru effeithiau'r risgiau hyn.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried ystod o opsiynau amgen i'r cynnig a argymhellir sy'n cynnwys gwahanol gyfnewidiadau, sef:

- Opsiwn 1: Cynnal y sefyllfa bresennol
- Opsiwn 2: Sefydlu ffederasiwn, cynnal y pwll a pheidio â sefydlu darpariaeth ASA newydd
- Opsiwn 3: Cau dwy ysgol, a throsglwyddo'r holl ddisgyblion i un ysgol sy'n weddill.
- Opsiwn 4: Cau un ysgol a throsglwyddo gweddill y disgyblion i'r ddwy ysgol arall
- Opsiwn 5: Cau pob un o'r tair ysgol ac adeiladu ar un o safleoedd yr ysgolion presennol.
- Opsiwn 6: Cau pob un o'r tair ysgol, adeiladu ysgol ar safle newydd a sefydlu canolfan cymorth dysgu gyda phwll nofio newydd
- Opsiwn 7: Cau pob un o'r tair ysgol, adeiladu ysgol ar safle newydd a sefydlu canolfan cymorth dysgu ond heb bwll nofio newydd
- Opsiwn 8: Adeiladu tair ysgol gynradd newydd yn lle'r ysgolion ar y safleoedd presennol a sefydlu darpariaeth ASA ar un o'r safleoedd

Opsiwn 6 yw'r cynnig a argymhellir. Ni fyddai'r un opsiwn arall yn darparu pecyn cyfan adeilad mawr newydd, canolfan cymorth dysgu a phwll newydd.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn ofalus effaith y cynnig ar drefniadau teithio. Bydd disgyblion sy'n byw y tu hwnt i'r terfyn o ddwy filltir i'r campws yn cael eu hystyried ar gyfer cael cymorth â theithio. Nid yw'n ymddangos bod y cynigiwr yn ystyried effaith traffig cynyddol a materion hygrychedd i'r safle pe bai dros 600 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol newydd. Fodd bynnag, mae'n datgan y bydd asesiad manylach o'r effaith ar y gymuned yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mae'r adroddiad yn rhoi sylw priodol i niferoedd a lleoedd disgyblion. Mae'n dangos yn glir y byddai lleoedd dros ben yn yr ysgol newydd, sef 7%, gryn dipyn yn is na'r tair ysgol gyda'i gilydd, sy'n 17.1% ar hyn o bryd.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynnig ar y Gymraeg. Credir y gallai'r ddarpariaeth newydd gael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth Gymraeg trwy gael grŵp mwy crynodedig o staff sy'n siarad Cymraeg a all gefnogi datblygiad yr iaith. Bydd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn cael ei gynnal yn ystod yr ymgynghoriad.

### **Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr wedi ystyried deilliannau adroddiadau arolygu diweddar Estyn ac wedi rhoi ei farn ar berfformiad presennol pob ysgol. Mae'r cynnig yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarpariaeth well gan fod mwy o arbenigedd yn cael ei rannu. Mae'r awdurdod lleol yn nodi y bydd dysgu disgyblion yn elwa ar amgylchedd mwy ysgogol a chael mynediad gwell at ystod ehangach o arbenigedd staff.

Barnwyd bod y tair ysgol yn dda ar gyfer safonau yn eu harolygiad diwethaf gan Estyn. O ran Ysgol Gynradd Allt-wen, a arolygwyd ddiwethaf yn 2018, mae'r awdurdod lleol yn barnu bod safonau yn y cyfnod sylfaen yn ddigonol dros dair blynedd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae deilliannau disgyblion yn ddigonol ym mhob un o'r 3 phwnc craidd dros dair blynedd. Arolygwyd Ysgol Gynradd Godre'r Graig ddiwethaf yn 2017 o dan fframwaith blaenorol Estyn. Mae'r awdurdod lleol yn barnu bod safonau yn y Cyfnod Sylfaen yn ddigonol dros y tair blynedd a'r un fath ar gyfer safonau yng nghyfnod allweddol 2. Yn 2019 yr arolygwyd Ysgol Gynradd Llan-giwg ddiwethaf, pan farnwyd bod safonau'n dda. Eto, mae'r awdurdod lleol yn barnu bod safonau yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn ddigonol.

Mae'r cynigiwr wedi darparu gwerthusiad o ansawdd presennol yr addysgu ym mhob ysgol yn seiliedig ar eu harolygiad diwethaf gan Estyn. Barnwyd bod hyn yn dda ar y cyfan ym mhob ysgol.

Yn eu gwerthusiad o arweinyddiaeth a rheolaeth, mae'r cynigiwr yn nodi barn Estyn yn eu hadroddiadau arolygu diwethaf. Mae hefyd yn rhoi ei farn ei hun yn seiliedig ar ymweliadau craidd yn 2019. Mae'r awdurdod yn credu bod penaethiaid yn darparu arweinyddiaeth gref, ar y cyfan, ac yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer eu hysgolion.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno'n barhaus ar gyfer yr holl ddisgyblion yn briodol. Rhagwelir y bydd y cynnig o fudd i gyflwyno'r cwricwlwm, ac yn rhoi profiadau dysgu gwell i ddisgyblion a ddaw yn sgil poblogaeth fwy o ddisgyblion, a chyfleusterau wedi'u hadeiladu'n bwrpasol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y cynigion ar grwpiau sy'n agored i niwed yn dda. Mae'r adroddiad yn nodi y bydd lefel y cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn parhau. Bydd disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan cymorth dysgu arfaethedig yn yr ysgol newydd yn elwa ar gael eu haddysgu gan staff arbenigol.

Mae'r cynllun yn cynnwys trosglwyddo disgyblion i un safle newydd. Nodir y bydd disgyblion yn elwa ar amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol mewn adeilad o'r radd flaenaf. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar hunan-barch a lles disgyblion. Fodd bynnag, mae'r risgiau a nodwyd gan y cynigiwr yn cynnwys ymwrthedd i newid gan ddisgyblion, amser teithio cynyddol a chymorth llai effeithiol â lles mewn ysgol fwy. Bydd angen i'r cynigiwr ddangos sut maent yn bwriadu lliniaru yn erbyn y risgiau hyn.